

ECO'R WYDDFA

Rhif 211

EBRILL 1995

Pris 25c

HALEN Y DDAEAR

Daeth cryn glod i un o drigolion yr ardal yn ddiweddar pan dderbyniodd Mrs Dilys Jones, Warden Hafan Elan, Llanrug, dlws 'Halen y Ddaear' y rhaglen deledu 'Heno'. Fe'i henwebwyd ar gyfer yr anrhydedd gan Mrs Elizabeth Hughes sy'n byw yn rhif 23 Hafan Elan.

Roedd y cwbl yn syrpreis llwyr i Dilys gan i bawb oedd yn gysylltiedig â'r trefniadau lwyddo i gadw'r gyfrinach yn ddiogel. Roedd y cwmni teledu wedi cysylltu â hi ryw bythefnos yn gynharach i wneud trefniadau i ddefnyddio canolfan Hafan Elan ar gyfer recordio rhaglen deledu yn ymwneud â'r henoed. Esgus pur oedd hynny, wrth gwrs, ond fe lyncodd Dilys y cwbl. Ar ganol recordio'r rhaglen, trodd Daloni Metcalff, y cyflwynydd, ati a datgelu'r gwir reswm. 'Doedd gen i ddim syniad fod y peth yn mynd i ddigwydd,' meddai Dilys, 'ac roeddwn wedi cael dipyn o sioc.'

Ychydig iawn o breswylwyr Hafan Elan oedd yn gwybod hefyd, ond roedd pob un yn falch

iawn drosti ac yn cefnogi'r wobr i'r carn. Ychydig ddyddiau wedyn teithiodd Dilys ac Arthur ei gŵr i stiwdio 'Heno' yn Abertawe ble cyflwynwyd plât arbennig a blodau iddi i gofnodi'r achlysur. Yn gwmni iddynt ar y daith ac yn y stiwdio roedd Mrs Elizabeth Hughes, a enwebodd Dilys, a'i merch Llinos. Cawsant oll ddiwrnod i'w gofio, yn enwedig y trip mewn limousine o'r stiwdio i'r gwesty — gwesty gwerth chweil yn ôl pob sôn.

Mae'n amlwg bod trigolion Hafan Elan yn meddwl y byd o Dilys ac yn tystio i'w gwaith arbennig fel Warden. Braf yw cael ychwanegu diolch yr *Eco* iddi am ei gwaith — un o'r gwir 'Halen y Ddaear'.

Y RHIFYN NESAF NEWIDIADAU PWYSIG

1. Bydd y rhifyn nesaf yn dod o'r wasg NOS IAU, MAI 4ydd.

2. Bydd yn cael ei blygu YM METHEL.

Dowch draw i'r Neuadd erbyn 6.30 i helpu efo'r plygu. Mae angen eich help.

CYD-DREFNYDD BWNDELU

Mae arnom angen rhywun i helpu i drefnu bwndelu copïau yr *Eco* ar noson y plygu bob mis. Os ydych chi yn fodlon helpu'r *Eco*, ac eisiau noson hwyliog, gymdeithasol yr un pryd, rhowch wybod i:

**JOHN ROBERTS,
BEDW GWYNION,
LLANRUG.**

Ffôn: (01286) 675605



DIOLCH O BELL

Cyn y Nadolig rhoddwyd sylw yn yr *Eco* i ymdrech leol i gefnogi'r elusen Ymgyrch Plentyn y Nadolig. Anfonwyd cannoedd o focus esgidiau yn llawn o anrhegion i blant, yn bennaf yn Bosnia a Croatia. Cefnogwyd yr ymdrech gan amryw o ysgolion ac eglwysi ym mro'r *Eco*.

Roedd rhai o'r plant a anfonodd yr anrhegion wedi ysgrifennu llythyr at bwy bynnag a dderbyniat'r anrheg. Ac erbyn hyn mae ambell i lythyr wedi cyrraedd y fro yn diolch i'r plant am yr anrhegion hynny. Cafodd dau o blant Ysgol Gynradd Llanrug lythyrau o Croatia. Roedd Laura Evans a Stephen Davies wrth eu bodd pan gyrhaeddodd y llythyrau yn diolch am yr anrhegion a anfonwyd ganddynt hwy. Roedd y llythyr a dderbyniodd Laura wedi ei anfon gan ferch fach 6 oed o Karlovak yn Croatia.

(parhad ar dudalen 11)



Manon Jones o Ddeiniolen yn dal cerdyn a llun a dderbyniodd o Croatia.

O'R DDINAS I'R COWNTI

'Oherwydd prinder arian mae mwy o'r clybiau mawr yn chwilio am chwaraewyr o'r cynghreiriau llai. Os daw y cyfle yna fe fyddwn yn barod i gymryd y sialens.' Dyna ddywedodd Marc Lloyd Williams mewn cyfweiliad â'n golygydd chwaraeon yn rhifyn Nadolig yr *Eco*.

Erbyn hyn cafodd Marc ei gyfle a thalodd Stockport County £10,000 i Glwb Dinas Bangor amdano. Mae Stockport yn chwarae yn Ail Adran Cynghrair yr Endsleigh, a'r wythnos diwethaf ymunodd Marc â'r clwb ar yr un diwrnod ag un o gynchwaraewyr Manchester United, Peter Davenport.

Sgoriodd Marc yn rheolaidd i'w dri clwb blaenorol, Llanberis, Porthmadog a Bangor. Dymunwn y gorau iddo yn ei yrfa newydd, ac edrychwn ymlaen at glywed am ei gôl gyntaf i'w glwb newydd.

ECO'R WYDDFA

Rhif 211
EBRILL 1995

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115
DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)
FFOTOGRAFFWR
Gwynhaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)
DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925
TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)
TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)
TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)
TREFNYDD GWERTHANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)
TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.
BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)
BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)
CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)
CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)
CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)
DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)
DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)
LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)
LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)
NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)
PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)
TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)
WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
SYLWCH AR
Y DYDDIAD NEWYDD
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAI 4
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, EBRILL 24
os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAI	MAI 4	BETHEL	Mr Geraint Elis	(01248) 670726
MEHEFIN	MEHEFIN 1	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
GORFFENNAF	MEHEFIN 29	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 7	DINORWIG	Mr Meirion Tomos	870056
HYDREF	MEDI 28	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 26	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 30	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Diolch i'r cysylltwyr am eu cefnogaeth.

MAE CAMERÂU YR ECO AR GAEL GAN Y CANLYNOL:

BETHEL: Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl (0248) 670115
WAUNFAWR: Heulwen Huws, Argoed (850556)
DEINIOLEN:
LLANBERIS: John Pritchard, Cilfynydd (872390)

Llythyr

GAIR O DDIOLCH

Apêl Cancr y Llygad — Anne Gibbins

Annwyl Ddarllenwyr,

Drwy eich papur hoffwn ddiolch yn gynnes iawn i bawb am eu cymorth gyda'm hapêl ac i bawb a gyfrannodd. Diolch am eich haelioni — fe gesglais y swm o £2,325 sydd bellach wedi ei dderbyn gyda diolchgarwch gan Uned Llygad Sant Paul yn Ysbyty Frenhinol Prifysgol Lerpwl.

Bu'r ymateb yn syfrdanol a diolchaf unwaith eto am haelioni pawb ohonoch.

Yn gywir,

ANNE GIBBINS

Cyfarchion i Dilys Jones, Warden Hafan Elan, Llanrug, ar dderbyn tlws 'Halen y Ddaear' ar y rhaglen 'Heno'.

Yn unfryd pawb sy'n datgan Eu balchder a'u boddhad O'ch gweld ar raglen 'Heno' Yn derbyn cadarnhad O uchel barch y lliaws Y diolchgar griw, diri Sy'n byw yn Hafan Elan O dan eich gofal chwi.

Fe wn o briofiad, Dilys, Mor drylwyr yw eich gwaith, Mor barod eich cymwynas Na dim yn ormod 'chwaith. Fel d'wedwyd ar y rhaglen Dim ots pa awr o'r dydd Fe setlwch yn ddibetrus Pa broblem bynnag fydd.

Wrth gwrs ni wnawn anghofio Eich priod hawddgar, mwyn Mae Arthur fel y gwyddys Bob amser mor ddi-gwyn; Yn halen hoff y ddaear Yr ydych heb ddim os, Ac ymfalchïa'r miloedd Yn haeddiant gwir — y 'boss'

ROL WILLIAMS

Mae'r Golygyddion yn llongyfarch Shioned, y trefnydd plygu, ar ei phriodas ag Iwan Griffith.

Galw Disgyblion Safon 4 Ysgol Dolbadarn 1971-72

Annwyl Gyfeillion,

Gobeithir cynnal aduniad Safon Pedwar, blyneddod 1971-72, Ysgol Dolbadarn, Llanberis, ar Ebrill 28ain am 7.30 o'r gloch yng Ngwesty Dolbadarn.

Estynnir croeso cynnes iawn i'r holl ddisgyblion ac athrawon i'r aduniad hwn.

Am fwy o fanylion cysylltwch â:

Gareth Jones,
27 Dôl Elidir,
Llanberis

Ffôn: (01286) 871882
Edrychwn ymlaen i'ch gweld yn n.

Cefnogwyr y Nant

Annwyl Gyfeillion,

Ar Wyl Mai eleni (8fed Mai) mae'n fwrriad gan Gefnogwyr y Nant gyflwyno siec am £60,000 i'r Ganolfan Iaith yn Nant Gwrtheyrn. Yr arian hwn fydd ffrwyth ein hapêl arbennig i sicrhau dyfodol holl waith da y Nant.

Daeth cyfraniadau o bob cwr o Gymru, o'r ochr arall i Glawdd Offa ac o dros y môr. Mae'n amlwg i ni fod yna barch mawr i'r gwaith gwych a wneir efo dysgwyr yn y Nant. Hyfryd iawn oedd clywed fod mwy nag erioed wedi bod yn Nant Gwrtheyrn yn dysgu Cymraeg ym 1994. Deallwn hefyd fod rhagolygon gwell eto i 1995. A wnewch chi ein helpu? Erbyn

hyn casglasom dros £57,000. Mae'r nod o drigain mil o fewn cyrraedd gyda llai na £3,000 i'w codi eto. Buasem yn hynod falch o dderbyn cyfraniad gennych chwithau.

Mae cyfraniad Nant Gwrtheyrn i fudiad y dysgwyr, a dyfodol y Gymraeg yn wir, yn amhrisiadwy. Mae'r Nant yn eiddo i Gymru gyfan, i'r Cymry Cymraeg, y dysgwyr a'r di-Gymraeg fel ei gilydd. Mynwn sicrhau ei dyfodol.

'Byw fyddi Nant Gwrtheyrn.'

Yn llawn ffydd,

MOI PARRI

Golygfan, Allt y Golch, Carmel,
Treffynnon, Clwyd CH8 8QW
Ffôn: (0352) 713603

CYD-DDEALL

Annwyl Olygydd,


Mae Cyd-ddeall Gogledd Cymru yn ceisio recriwtio a hyfforddi Cyngorwyr gwirfoddol sy'n Gymry Cymraeg gogyfer ag ardaloedd Bangor ac Ynys Môn.

Bydd yn ofynnol i ddarpar-gynghorwr ymgymeryd â rhaglen hyfforddiant safon tystysgrif.

Os oes ar unrhwy un o ddarllenwyr eich papur angen rhagor o wybodaeth, dylai gysylltu â mi. Diolch yn fawr.

Mrs Alex Jaundrill
Rheolwr Cyd-ddeall Gogledd Cymru
Ffôn: (01492) 533919

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip

Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493
unrhyw adeg

10 MLYNEDD YR ANTUR

'Aeth deng mlynedd heibio er pan ymgorfforwyd Antur Waunfawr yn gwmni elusennol, ac fe benderfynodd Cyfarwyddwyr y cwmni mai syniad da fyddai dathlu'r achlysur trwy gyhoeddi llyfryn i gofnodi hanes yr ymdrech, a cheisio rhoi ar gof a chadw yr hyn a ddigwyddodd yn y Waunfawr . . .'

Fel yna y mae Gwynn Davies, Cadeirydd yr Antur, yn cychwyn ei Ragair i'r llyfryn *Antur! Stori Antur Waunfawr* a fydd yn cael ei lansio yn swyddogol yn Y Ganolfan, Waunfawr, nos Wener, Mawrth 31. Bydd copïau o'r llyfryn yn cael eu cyflwyno i ragor na 200 o gyfarwyddwyr lleol y noson honno.

Mae'r llyfryn dwyieithog yn rhoi golwg diddorol iawn o fywyd yr Antur dros y blyneddau. Mae'r syniadau a barodd sefydlu'r Antur yn y lle cyntaf yn cael eu hesbonio. Roedd yr argyhoeddiad bod angen rhoi cyfle i bobl dan anfantais meddwl i wneud eu cyfraniad i fywyd ardal a chymdogaeth gan ddatblygu eu personoliaethau eu hunain y tu cefn i'r cyfan.


Ceir hanes y ffordd yr aed ati i sefydlu'r Antur, a gwelir bod cymdogaeth Waunfawr wedi bod yn frwd iawn eu cymorth o'r cychwyn. Datblygodd y gwaith

yn arw yn ystod y deng mlynedd wrth gwrs. Cychwynwyd efo adfeilion hen siop a bythynnod, a llwyddwyd i sefydlu busnes sy'n darparu gwasanaeth trin gerddi a thiroedd, ac yn cynnal gardd fasnachol lle gwerthir hefyd offer garddio. Trowyd yr hen adeildau yn swyddfa a chaffi a siop grefftiau. Ac yn ddiweddar cychwynwyd busnes newydd o gasglu papur gwastraff o swyddfeydd lleol i'w ailgylchu.

Mae'r cynlluniau yn Waunfawr yn cynnwys datblygu parc natur lleol ac agor y bythynnod fel bod gweithwyr yn gallu byw ar y safle. A gobeithir y bydd hanes Antur Waunfawr yn help i bentrefi eraill ddatblygu mentrau tebyg i alluogi pobl dan anfantais i gael rhan bwysig ym mywyd y gymdogaeth.

Mae'r Antur wedi darparu gwaith go-iawn ar gyfer pobl dan anfantais meddwl. Maent yn rhan o fusnesau go-iawn sy'n gwasanaethu'r ardal. Ac adlewyrchir hynny yn y llyfryn sy'n adrodd profiadau rhai o'r trefnwyr, y gweithwyr a'u teuluoedd, cwsmeriaid a chymdogaion yr Antur.

Mae'r crynodeb o'r prif gerrig milltir a geir ar ddiwedd y llyfryn



yn dangos llwyddiant mawr yr Antur. Daeth gwobrau pwysig i'r Antur dros y blyneddau a hynny'n galluogi'r gwaith i ddatblygu o flwyddyn i flwyddyn. Dymunwn yn dda i bawb sy'n gysylltiedig ag Antur Waunfawr ar gychwyn yr ail ddegawd.

Cyhoedd *Antur! Stori Antur Waunfawr* gan yr Antur eu hunain ar y cyd â Gwasg Carreg Gwalch, a'r pris yw £3.50. Ceir rhagor o fanylion gan R. Gwynn Davies, Bryn Eithin, Waunfawr (01286) 750357, a gellir cysylltu ag ef hefyd i drefnu ymweliadau â chanolfan yr Antur.

CYMDEITHAS Y CERDDWYR

Sefydlwyd grŵp Caernarfon o Gymdeithas y Cerddwyr ym Mehefin 1993. Prif bwrpas y grŵp yw trefnu teithiau cerdded, ac ar yr un pryd gadw gwyliadwriaeth ar y llwybrau troed lleol.

Mae'r Clwb yn cyfarfod pob pythefnos a cheir amrywiaeth o deithiau cerdded i weddu ar gyfer pob oedran. Mae'r teithiau yn cael eu graddio o A-D. Mae teithiau graddau A a B ar fynyddoedd a theithiau gradd C ar ucheldir i fyny hyd at 2,000 troedfedd; a theithiau cerdded gradd D ar y gwastadir.

Mae teithiau cerdded ar raglen gaeaf a gwanwyn y Clwb yn cynnwys: Crib Hebog; Llyn Du a Fach Goch; Parc Padarn, Creigiau, Bwlch Uchaf; Parc Arfordir Caergybi; Mynydd Maentwrog; Llyn Llgi a Llyn Edno; Mynydd Mawr; Penmon.

Fel arfer ceir rhwng 15 ac 20 o aelodau yn cerdded ar un o'r teithiau hyn. Wrth ymaelodi â Chymdeithas y Cerddwyr ceir copi o raglen teithiau pob grŵp cerdded yng ngogledd Cymru, ac mae'n bosib ymuno ag unrhyw un o'r teithiau hynny.

Mae Grŵp Caernarfon yn awyddus i glywed gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn arwain teithiau cerdded ar eu rhan. Croesewir unrhyw un sydd â diddordeb i ymuno â'r grŵp i flasu'r teithiau cerdded i gysylltu â Liz Watkin, Ty'n Lon, Bethel, (01248) 671243.

Trefnwyd taith gerdded arbennig — 'In Search of the Yeti' — ar y 1af o Ebrill gan gychwyn o Faes Parcio Sŵ Llanberis, a fydd yn cael ei arwain gan ddwy aelod ffyddlon o fro'r Eco, sef Falmai Owen a Myfi Evans.

TAITH GERDDED BETI A SEIRIOL SARN HELEN

O GAERHUN I GAERFYRDDIN (150 milltir)

Mae darllenwyr yr *Eco* yn gyfarwydd â hanes Beti a Seiriol, dau o drigolion Bethel sy'n aelodau o Gymdeithas Edward Llwyd. Yn 1993 cerddodd Beti a Seiriol ar hyd Glawdd Offa gan godi swm sylweddol o arian i Ysgol Feithrin Bethel ac i gael ci tywys i Mr John Owen, Penrhyn Bach, Llanrug.

Gwirfoddolodd y ddau i gerdded eto eleni er mwyn helpu achos teilwng arall — y tro hwn i godi arian at gronfa ymchwil feddygol. Mae yna adran flaengar iawn yn Ysbyty'r Brifysgol Caerdydd sy'n ymchwilio i ddulliau o wella nifer o afiechydon. Y nod felly yw casglu noddwyr er mwyn sicrhau swm anrhydeddus i gynorthwyo gwaith allweddol pwysig yr adran hon.

Eisoes agorwyd cyfrif ym Manc y Midland, Caernarfon, ac os carech gyfrannu gellwch wneud hynny drwy anfon i'r Banc, yn daladwy i gyfrif 'Taith Seiriol a Beti' neu drwy law Sian Hughes, Fferm Cae Rhos,

Penrhos, Bethel, neu Mr Jack Foulkes, 6 Tan y Cae, Bethel. Os ydych yn barod i gasglu noddwyr mae yna ddigon o ffurflenni ar gael drwy ffonio (01248) 670685.

Trefnwyd taith hanesyddol y tro hwn eto, sef cerdded Sarn Helen — yr hen ffordd Rufeinig

Emyr Jones

PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513



o Gaerhun i Gaerfyrddin. Bydd chwech yn ymuno â Beti a Seiriol ar y daith gerdded hon eleni, Mr Ifan Wyn Williams, Mrs Olwen Williams, Mrs Ada Taylor, Mr Gordon Griffiths, Mrs Mair Thomas a Mr Harri Hughes. Gobeithir cwblhau'r daith ar y 18fed o Fai. Gobeithiwn y gallwch gyfrannu'n hael.

LEIN FACH SEIONT

Yn dilyn penderfyniad Cwmni Rheilffordd Ffestiniog a Chwmni Rheilffordd Ucheldir Cymru i gydweithio er mwyn ymestyn y lein fach o Borthmadog i Gaernarfon, mae grŵp o ddynion busnes wedi dod at ei gilydd i ffurfio Cymdeithas Lein Seiont. Gobaith y cwmni newydd yw perswadio'r awdurdodau i ymestyn y lein bach wedyn o Gaernarfon i fyny'r dyffryn cyn belled â Phontrhythallt, ac ymhen amser yr holl ffordd i Lanberis. Dywedodd llefarydd ar ran y cwmni newydd ei bod yn rhy gynnar i ddweud eto a ellid defnyddio unrhyw ddarn o'r hen drac rheilffordd ai peidio. Bwriedir gwahodd pobol leol i fod yn gyfranddalwyr o Gymdeithas Lein Seiont.

O SIAMBAR SELWYN

Gwyddel oedd o, ac mi roedd o'n dipyn o foi. Y fo ddeudodd amdano'i hun, 'Rywffordd neu gilydd mi fydda i yn enwog; mi fydda i yn fardd, yn 'sgrifennwr a dramodydd, ac os na lwydda i fod yn enwog fel llenor a bardd, wel, mi fydda i yn enwog am fy nrygioni.'

Roedd ei dad yn lawfeddyg enwog, ac fe gafodd ei urddo'n farchog. Dyn bychan, gwyllt ei natur, yfwr cadarn, un hoff o ferched hefyd a chafodd amryw ohonynt i drwbl.

Jane Elgee oedd enw morwynol ei fam. Merch dal dalentog. Roedd hi'n siardwraig dda a chanddi lais huawdl cyfoethog. Ychydig iawn o ddylanwad ei dad oedd ar y mab, ond roedd o'n debyg iawn i'w fam yn ei wynebpryd, a'i ddawn i siarad.

Fe briododd un o'r enw Constance Mary Lloyd, unig blentyn bargyfreithiwr cyfoethog, ym Mai 1884. Ganed iddynt ddau fab, Cyril a Vivian. Pan ofynwyd iddo sut y bu iddo syrthio mewn cariad ag un a oedd mor gwbl wahanol ei natur iddo, ei ateb oedd, 'Tydi hi byth yn siarad, a dwi'n ceisio dychmygu yn aml sut feddwl sy ganddi.'

Gwisgai yn 'ddandiaid' — dillad melfed costus a siaradai mor llithrig a naturiol a phetai yn anadlu. Roedd o'n smociwr trwm ac yn cario stoc o sigarêts mewn tûn bisgedi, a'u cludo o un ystafell i'r llall. Roedd o'n mwynhau gwin ond doedd o ddim yn gaeth i'r ddiod gadarn. Yn wir roedd o'n cyfrif y sawl a oedd, yn anfoesol. Yn ystod blwyddyn olaf ei oes dioddefodd boenau enbyd yn ei ben, ac aeth i yfed yn bur drwm.

Roedd o'n barod i rannu'r cyfan a oedd ganddo a llawer yn manteisio ar hynny. Dywedir ei fod o yn ennill tua £8,000 y flwyddyn yn 1890. Mi fydda hynny yn gyflog John Barnes neu Cantona heddiw. Roedd o'n byw yn fras, prynu anrhegion drud i'w ffrindiau a'i deulu. Mynd hefo 'cab' i bobman — hyd yn oed ar y siwrne fyrraf — ac os

cawsai 'cab' da, yna fe'i rhentiai am y diwrnod.

Doedd o'n poeni dim am y dyfodol cyn belled ag oedd arian yn y cwestiwn, ac fe brofodd yntau gyfnodau o dlodi oherwydd iddo fyw mor fras, ond bob tro fe lwyddodd i ddod dros ei broblemau.

Fe ddywedodd o nifer o bethau cofiadwy a dadleuo. Fe ddwedodd o bethau eitha pigog am y Sais. Meddai, 'Mae gan y Sais y ddawn wyrthiol o droi gwin yn ddŵr'. Ac eto — 'Mae'r Sais yn ceisio bod yn glyfar wrth fwrdd brecwast. Anffodus yw hyn — dim ond pobl ddwl sy'n ddisglair wrth fwrdd brecwast.'

Dyma rai eraill o'i ddywediadau: 'Mae'r Sais o'r farn y gall llyfr siec ddatrys holl broblemau bywyd.' Ei farn am Aelodau Seneddol oedd: 'Prin fod 'na'r un aelod o'r Tŷ Cyffredin sy'n haeddu cael ei baentio mewn olew, ond fe ellid gwyngalchu amryw ohonynt.'

Beth oedd ei farn am ferched tybed? 'Gwnaed merched i gael eu caru nid i gael eu deall'; 'mae merched drwg yn poeni un — mae merched da yn diflasu un — dyna'r unig wahaniaeth rhyngddynt'; 'dim on un drasiedi sy ym myrwyd dynes, sef y ffaith mai'r gorffennol yw ei chariad, ac mai'r dyfodol yw ei gŵr'; 'mae Llyfr Bywyd yn dechrau hefo dyn a dynes mewn gardd — mae o'n gorffen hefo datguddiad.'

Ac o sôn am fywyd fe ddywedodd: 'Mae bywyd yn rhy bwysig i siarad yn ddifrifol amdano. Mae BYW bywyd yn un o'r pethau puraf yn y byd — bodoli yn unig a wna'r rhan fwyaf o bobl.'

Dyma ychydig eto o'i ddywediadau:

'Fe ddylai hen lanciau cyfoethog gael eu trethu'n drwm. Dydi o ddim

yn deg fod rhai dynion yn cael bywyd hapusach nag eraill.

'Heddiw, mae pobl yn gwybod pris popeth ond gwerth dim.'

'Os yw dyn yn trin bywyd yn "artistig" yna mae ei ymennydd o yn ei galon.'

'Dylai pawb gadw dyddiadur rhywun arall.'

'Dylai pawb chwarae'n onest pan mae ganddo law dda o gardiau.'

'Mi sgwenais pan na wyddwn am fywyd. Nawr rwy'n deall ystyr bywyd, does gen i ddim mwy i'w sgwennu. Fedrwyd chi ddim sgwennu bywyd — dim ond ei fyw.'

'Mae'n saffach i fegio nag i ddwyn — ond mae'n ddifyrach i ddwyn nag i fegio.'

'Dweud anwiredd a'i ddweud o'n dlws ydi gwir nod celfyddyd.'

'Ni ddylid ateb gweddi. Pan wneir hynny mae'n peidio â bod yn weddi — gohebiaeth yw.'

Ychydig wythnosau yn ôl fe ddadorchuddiwyd cofeb i'r athrylith hwn yn Abaty Westminster. Do, fe dreuliodd o ddwy flynedd mewn carchar, ond digon o waith y byddai yn cael ei garcharu am ei drosedd heddiw. Bu farw ar 30ain o Dachwedd 1900, a'i gladdu ym Mharis.

Athrylith ffraeth, a'i ddychan yn ddeifiol. Yn sicr roedd hwn yn haeddu 'Oscar' am drin geiriau.

Oedd, roedd Oscar Wilde yn dipyn o foi.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Croeso cynnes iawn i Mrs Meira Pritchard sydd wedi ymgartrefu yn 7 Teras Bryngwyn. Pob bendith i chwi yn eich cynefin newydd.

Mae Miss M. A. Humphreys, Cadnant, wedi bod yn wael yn ddiweddar a dymunwn wellhad llwyr a buan iawn iddi.

CLWB ERYRI

Yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, nos Wener, 10 Mawrth, mwynhaodd yr aelodau a'u gwragedd noson ddifyr yn dathlu Gŵyl Ddewi. Wedi cinio da, tymhorol, cafwyd anerchiad ffraeth a hwyliog yn ôl y disgwyliad, gan Mr Guto Roberts (Guto Rhoslan), y gŵr gwadd, a draddododd hanesion a rhai o ddywediadau bachog a doniol amryw o gymeriadau hynod a brith bro ei blentynod. Diolchwyd i'r siaradwr gan Is-lywydd y Clwb, Wyre Thomas, a thalodd deyrnged hefyd i'r Llywydd, Evan Parry, am ei arweiniad yn ystod tymor llwyddiannus. Erys un eitem eto yng nghalendr y Clwb, sef y Wibdaith Flynyddol ar ddydd Sadwrn, 17 Mehefin. Disgwylir yn eiddgar am y manylion gan y trefnydd, John Roberts, a chynhelir cyfarfod o'r swyddogion rywdro yn Ebrill i drafod y cyfryw.

I. HUWS-ROBERTS

PAID RHOI FYNY . . .

Yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Clatterbridge yn ddiweddar clywodd Mrs Joan Hughes, 7 Stryd Tomos, Llanberis, bennill Saesneg o'r enw 'Don't Quit' yn cael ei ddarllen. Wedi sicrhau copi o'r geiriau gofynnodd i Mrs Dilys Baylis gyfieithu'r pennill i'r Gymraeg. Bu'r geiriau'n help mawr i Joan, a theimla y byddai rhai o ddarllenwyr yr Eco yn falch o weld cyfieithiad Mrs Baylis.


PAID RHOI FYNY

Pan fydd rhyw loes, ac yn aml y daw,
A'r llwybr y cerddwch yn llusgo draw,
Pan fo pres yn brin a dyled wrth law,
Pan mae angen gwên ond ochenaid ddaw;
Pan welir pryder yn pwyso'n awr
Gorffwys am sbel, paid rhoi lawr;
Bywyd sydd od, yma'n troi a throi
A dysgu yr ydym, all neb osgoi,
A gwelir methiant yn troi yn llwydd
Pan safwn yn dawel daw ateb yn rhwydd.
Paid rhoi i fyny, er mor ara' deg
Enilli'r dydd gydag ergyd deg.
Llwyddiant yw methiant a'i ben i lawr,
A'r heulwen ddaw gyda'r bore wawr.
Mi wyddost yn wir pa mor agos wyt
Gall fod wrth law wrth dy ymyl di,
Ond saf yna'n gryf, er it deimlo'n wan,
Er tywyll y nos, fe ddaw gwawr yn y man.

Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
MASNACHWYR
A "D.I.Y."

am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG**
Ffôn: 677482

**TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT**

Lynette Evans
GARNET, LLANRUG
Ffôn: **673981/675807**

'Un funud fach . . .'

DIWRNOD I'W GOFIO

Diwrnod i'w anghofio. Diwrnod i gadw'n dawel amdano. Diwrnod i fod â chywilydd ohono. Byddai'n naturiol i feddwl fellu am y dydd Gwener arbennig hwnnw.

Camdrin y dyn gorau a fu erioed trwy boeri arno a'i wawdio; gosod coron ddrain ar ei ben a'i chwipio; gwneud iddo lusgo croes bren i dwll o le y tu allan i'r ddinas; ei hoelio'n sownd wrth y groes a chwerthin am ei ben. Fel 'tasa hynny ddim yn ddigon, roedd ei ffrindiau wedi ei adael; Jwdas wedi ei fradychu; Pedr wedi ei wadu; a'r lleill wedi ei adael.

Anghofio'r fath ddiwrnod fyddai'r ymateb naturiol, a meddwl am y dyddiau a fu cyn hynny. Hawdd fyddai deall awydd y disgyblion i gofio'r dyddiau da: cofio'r gymdeithas felys a gawsant efo'r Iesu; cofio'i eiriau; cofio'i waith da; cofio'i gymeriad glân a ddangosodd gymaint iddynt am gariad Duw. Haws hynny na chofio'r brad a'r gwadu a'r troi cefn.

Ac eto, roedd digwyddiadau'r dydd Gwener hwnnw yn cael sylw mawr y disgyblion wedyn. Fe sonient amdanynt. Fe bregethent amdanynt. Fe feddylient amdanynt. Fe ddiolchent amdanynt.

Nid bod cofio'r hyn a wnaethant hwy yn hawdd, cofiwch. Go brin iddynt allu meddwl am y gwadu a'r gwrthod heb deimlo siom a thristwch. Ond cofio wnaent bod eu Harglwydd wedi mynnu wynebu croes a bedd er mwyn eu galluogi hwy — a ninnau — i gael Ffordd y Bywyd yn agor o'u blaenau: 'O'i gariad mawr yr aeth Efe i'r groes.'

JOHN PRITCHARD

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR (WEA)

CWRS UNDYDD

Y GÂN WERIN, CERDD DANT A'R FALED

Cwrs yn olrhain yr hanes a'r datblygiad

Cyfranwyr:

BUDDUG LLOYD ROBERTS
ALED LLOYD DAVIES
PARCH EMLYN RICHARDS
HARRI RICHARDS

YNG NGWESTY'R ROYAL
CAERNARFON
Sadwrn, 29 Ebrill 1995

Manylion pellach gan:
Ifor Baines (Athro/Drefnydd)
Ffôn: (01286) 881328

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Gair o Ddiolch: Dymuna Rhys a Rhian, 15 Ffordd Clynnog, Pen-y-groes, ddiolch i bawb am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur genedigaeth eu mab bychan, Cian Rhys.

Dymuna Delyth ac Alwyn, Caer Bythod Mawr, ddiolch am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar ddathliad eu Priodas Arian yn ddiweddar. Diolchir hefyd am y llu cyfarchion ar achlysur hynod o hapus o ddod yn nain a thaid i Cian Rhys.

Ar achlysur dathlu ei ben-blwydd yn 21ain oed, dymuna Dylan Price ddiolch i'w rieni, ei deulu a'i ffrindiau am y caredigrwydd a'r llu anrhegion a dderbyniwyd.

Pwyllgor Neuadd: Tynwyd Clwb Cant mis Chwefror a'r enillwyr oedd: 1, Gwen Griffith, Waun; 2, W. Thomas, 4 Bryntirion; 3, Nancy Williams, 15 Bryntirion. Cynhelir 'Hwyl y Pasg' yn y Neuadd Gymuned ar nos Iau, Ebrill 6ed, am 6.30 o'r gloch. Bydd byrddau tombola, raffi a chyfle i gael paned wedi'r cystadlaethau o addurno het, wy, teisen, gwneud cerdyn, llun Pasg a gardd Basg. Y beirniaid fydd Rhian a Rhys, Pen-y-groes.

Gwllhad: Anfonir ein cofion annwyl at bawb sy'n wael yn y pentref. Brysiwch wella i gyd.

Ysgol Sul Bosra: Cynhelir Cymanfa'r Annibynwyr ar ddydd Sul, 9 Ebrill, yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen, am 2.00 o'r gloch. Bydd y plant yn cymryd rhan yn y gwasanaeth hwn ac fe wneir casgliad tuag at Gronfa Addysg Kanini.

Cynhelir Cymanfa'r Methodistiaid yng Nghapel Ebeneser, Caernarfon, a threfnir bws i gludo'r plant yno.

Eglwys Santes Helen: Cynhelir gwasanaethau'r Pasg fel a ganlyn — Dydd Gwener y Groglith: 'Aw'r Dawel' o 2 - 3 o'r gloch, yng ngofal y Parchg Tegid Roberts. Bore Sul y Pasg: Y Cymun Bendigaid am 10.30 a.m. Gweinyddir gan y Parchg Tegid Roberts.

Bosnia: Mae pawb yn y pentref yn anfon eu cofion gorau at Jonathan Richardson sydd ar hyn o bryd yn Bosnia. Y mae dy deulu, cymdogion a'th fêts i gyd yn dyheu am dy weld adref unwaith eto Joni!

Ysgol Gymuned: 'Tedis' yw thema dosbarth y babanod ar hyn o bryd, ac fe fu'r plant ar ymweliad â gweithdy Tedis yn Ninorwig ynghyd â Mrs Thomas a Miss Owen. Cawsant gyfle i weld drostynt eu hunain sut mae eirth yn cael eu dylunio a'u gwneud — cyn iddynt gael eu gwerthu yn lleol, ac yn wir yn bell iawn o'r ardal hon. Cafodd y plant bleser mawr ar yr ymweliad ac i gloi fe gawsant fisedd ar ffurf Tedi bob un. Wedi dychwelyd i'r ysgol cafodd y plant gyfle i lunio cerdyn o ddiolch a'u hanfon i'r gweithdy fel arwydd o'n gwerthfawrogiad o'u caredigrwydd.

Gwahoddwyd Mr Haydn Davies i'r ysgol yn ddiweddar i gynnig gwahanol brofiadau ym maes addysg gorfforol i blwyddyn 5 a 6. Cafodd pawb bleser a mwynhad o ymweliad Mr Davies ac fe edrychir ymlaen i'w weld eto yn y dyfodol agos.

Cyn iddynt drosglwyddo i Ysgol Brynrefail bu plant blwyddyn 6 yn ymweld â'u darpar ysgol newydd. Cawsant gyfle i brofi ychydig o weithgareddau'r ysgol gan gynnwys cymryd rhan yng ngwersi'r dydd. Bu'n gyfle gwyb i ddilyn pryderon ymysg y plant a diolchir i Mr Grisdale a'i staff am ofalu amdanynt yn ystod yr ymweliad.

Cynhaliwyd tair noson agored yn ddiweddar ac fe fu'r rhieni draw yn gweld dosbarthiadau'r plant, a'r gwahanol weithgareddau a fu'n mynd ymlaen fel rhan o'u themâu. Gwerthfawrogiwn y gefnogaeth a gawsom yn fawr iawn.

Fel yr adroddwyd yn y wasg bu aelodau Pwyllgor Eiddo'r Cyngor Sir yn ymweld â safle'r ysgol i drafod cais yr Ysgol Feithrin i symud i'r un safle â'r ysgol. Edrychwn ymlaen i dderbyn eu dyfarniad.

Mewn cyfarfod diweddar penododd y corff llywodraethol Mrs Liz Jones i gynorthwyo'r ysgol gyda'r galwadau clerigol sydd arnom. Hoffwn groesawu Mrs Jones i'w dyletswyddau newydd a gobeithiwn y bydd yn hapus yn ein plith.

Trefnwyd i Mr Gareth Roberts o'r Adran Addysg Arbennig i ddod i'r ysgol ar ddiwedd un prynhawn i gynnig arweiniad penodol i'r athrawon a'r gweinyddesau ar ddarllen ar y cyd, er bud y plant. Ymunodd Miss Phyllis Ellis, ein llywodraethwr dynodedig ar gyfer Anghenion Arbennig, â ni yn y cyfarfod ac fe gytunodd pawb ei fod

wedi bod yn gyfarfod buddiol iawn.

Bu'r ysgol yn dathlu Gŵyl ein Nawddsant yn y dull traddodiadol, ac fe ymunodd holl staff yr ysgol yn y dathlu, a oedd yn cynnwys eitemau cerddorol a dawnsio gwerin. Braff iawn oedd gweld nifer o'r plant, yn fechgyn ac yn enethod, yn dod i'r ysgol mewn gwisg draddodiadol, ar y diwrnod arbennig yma.

Yr Urdd — Adran Bentref: Mawrth 1: Dathlodd yr adran noson Gŵyl Ddewi gyda dawns werin dan ofal Judith Harding. Cyn cychwyn adref mwynhaodd pawb gawl blasus wedi ei baratoi gan Anti Janice ac Anti Liz.

Mawrth 7: Ar ddechrau'r cyfarfod cafwyd cyfle i glywed y gwahanol eitemau y bu rhai o'r aelodau yn eu perfformio yn yr Eisteddfodau Cylch, ac yna i ddilyn chwaraewyd y gêm 'Rhowch gliw i mi.'

Mawrth 14: Ymwelodd deg ar hugain o'r aelodau â'r Orsaf Dân yng Nghaernarfon. Cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol yn archwilio y peiriannau, gwylio fideo am beryglon tân, a chyfle i arbrofi gyda'r pibellau dŵr! Diolch i Ann Patterson am drefnu'r ymweliad.

Llongyfarchiadau i Erin Eifion ac Elgan Williams ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfodau Cylch. Daeth Erin yn ail yn y gystadleuaeth unawd chwyth-brennau dan 12 oed, ac Elgan yn ail yn yr unawd bechgyn 12-15 oed. Bydd y ddau yn mynd ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfodau Sir.

Rydym fel adran yn falch iawn o lwyddiant Ynyr Roberts a ddaeth yn gyntaf yn yr unawd llinynnol 15-19 oed. Mae Ynyr yn awr yn mynd ymlaen i gynrychioli'r Adran yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mro Preseli.

Daeth Lois Dafydd a Nicola Gibbins yn ail yn y ddeuawd piano 15-19 oed yn yr Eisteddfod Sir.



Ffermwr o'r cylch, yng nghwmni ei frawd, yn ymweld â fferm sydd rai milliroedd o'u cartref i weld cyflwr y gwartheg oedd ganddo'n pori yno:

Aeth ffermwr craff o'r fro am dro
I weld buwch oedd yn disgwyl llo,
Ac wedi cyrraedd man ei bo,
'Mae'r fuwch,' medd o, 'yn ymyl llo.'

'Mae'r holl arwyddion yn y pwrs,'
Eglurai Moi i'w frawd mewn sgwrs;
'A gwêl yr esgryn — maent i lawr,
Daw hon a llo o fewn dwy awr.'

'A doeth o beth — yn ôl y drefn —
Fydd cludo'r fuwch i fuarth y fferm
Rhag ofn i drafferth godi'i ben
A gorfod dod yn ôl drachefn.'

Cytuno wnaeth ei frawd yn eiddgar
Gan agor drws tu ôl y treilar,
A llwytho'n dawel a di-lol
Gan fod 'na lo bach yn ei bol.

Cychwynnwyd gartre'n bwylllog braf,
Er mwyn gwneud iawn â'r fuwch glaf;
Ac wedi cyrraedd buarth y fferm
Roedd popeth nawr yn nwylo'r Drefn.

Ynyr Roberts yn ymarfer ar gyfer Bro'r Preseli.

Ac meddai'r ffermwr wrtho'i hun:
'Mor werthfawr yw gwybodaeth dyn —
Rhagweld ymlaen o dro i dro,
Ac felly achub llawer llo.'

Ond roedd y nos yn tynnu 'mlaen
Tra cerddai'r ffermwr 'nôl a blaen,
A daeth yn hysbys, medda fo,
Yn awr na ddeuai y fuwch â llo.

'Beth sydd o'i le?' fe holai'n wir,
'Mae'r fuwch yn brefu dros y sir,
A'i hesgryn wedi codi'n ôl,
Myfi, 'ta'r fuwch sy'n ymddwyn yn ffôl?'

Fe aeth yn ôl i'w fferm am dro,
Lle roedd y fuwch yn ymyl llo,
Ac er mawr syndod, yn y man,
Roedd llo yn galw am ei fam.

Hen ffermwr craff (?) o gylch Gors Bach,
Newyddion da — mae'r ddau yn iach,
A thithau'n glaf â chalon drom,
O'r ochr orau, fe gefaist siom.

M.W.D.

CHWILOTA

Robert Parry: Llundain i Lanrug



Derbyniais gopi o *Geninen Gŵyl Dewi* (1909) gan Mrs Olwen Llywelyn, ac ynddi yr ysgrif goffa i'r Parchg Robert Parry, gweinidog Llanrug ar ddechrau'r ganrif. Cefais hefyd alwad ffôn gan Mr Meurig Owen, Lewisham, Llundain (gynt o Lanrug), a'i dilyn gan lythyr yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am Robert Parry. Mae Mr Owen wrthi ers rhai blynnyddoedd yn ysgrifennu hanes eglwysy'r Methodistiaid Calfinaidd yn Llundain a ddatgorfforwyd wedi'r rhyfel. Un ohonynt yw Stratford, a Robert Parry oedd ei gweinidog cyntaf.

Mab ieuengaf Dr Griffith Parry, Carno, oedd Robert Parry. Fe'i ganed yng Nghaernarfon yn 1859 (blwyddyn Diwygiad Dafydd Morgan, y soniwyd amdano yn y rhifyn diwethaf o'r *Eco*). Cafodd ei addysg yn Ysgol Ramadeg Manceinion, Coleg Aberystwyth a Choleg Braesnose, Rhydychen, lle graddiodd. Oddi yno fe'i penodwyd yn athro yn Llundain. Mr Meurig Owen sy'n adrodd ei hanes yno: 'Roedd yn aelod o Eglwys Holloway pan dderbyniwyd ef yn ymgeisydd am y weinidogaeth yng Nghyfarfod Misol Chwefror 1890. Yn Nghyfarfod Misol Mai o'r un flwyddyn, penodwyd gweinidog a dau flaenor i fynd i'w gyfnewid, a derbyniwyd adroddiad ffafriol iawn amdano yng Nghyfarfod Misol Medi. Penderfynwyd yno ei fod i gael pregethu dair gwaith i bob eglwys yn ystod ei flwyddyn brawf. Roedd yn un o dri ar restr y pregethwyr prawf yn 1891, a cheir ei enw fel ymgeisydd llwyddiannus yn rhestr yr Arholiad Cymanfaol 1894. Methais a chael hanes ei sefydlu'n weinidog Stratford, ond yr oedd yno erbyn 1897, ond er ei gynnwys yn ystadegau 1899, mae 'wedi ymadael' gyferbyn â'i enw.'

Dyma'r amser y symudodd i Lanrug, yn dilyn marwolaeth y Parchg John Eiddon Jones. Mae ei hanes yn Llanrug yn cael ei adrodd gan Alafon yn *Y Geninen*. Nodweddi o'i

weinidogaeth yn Llanrug oedd ei gefnogaeth i Gwmni Drama Glannau Ifor. Nid yw Alafon yn siŵr os mai Robert Parry a sefydlodd y cwmni, ond fe ysgrifennodd ddrama ar eu cyfer. Mae Mr Meurig Owen yn nodi mai 'Hirnos a Gwawr' oedd y ddrama honno, ac meddai: 'Mae o ddiddordeb arbennig i mi gan fod fy mam a thri o'i brodyr yn y cwmni; hen deulu Fron Helyg.' Mae llun y cwmni drama hwn yn y gyfrol o *Hen Luniau Bro 'Eco'r Wyddfa'*. Yn ôl Mr Owen, y Parchg Robert Parry yw'r un yn y rhes gefn ar y chwith, gyda'r goler gron a'i law yn ei gôt.

Nid oes crybwyll am ei deulu yn y coffad gan Alafon, ond mae'n siŵr fod nifer o drigolion Llanrug wedi eu dysgu gan ferch iddo, sef y ddiweddar Miss Annie J. Parry, a fu'n athrawes yn Ysgol Glanmoelyn, ac yn ddiweddarach yn yr Ysgol Ganol. Roedd yn byw yn 'Gwynant' ar Ffordd yr Orsaf.

Claddwyd y Parchg Robert Parry ym Mynwent y Capel, Llanrug, a chodwyd y gofgofofn ar ei fedd drwy gyfraniadau Methodistiaid Arfon, ei deulu a chyfeillion. Arni hefyd mae coffad i'w wraig, ei ddau fab, Edmund a Trevor Gwynant, ac i'w frawd, Wynne. Alafon yw awdur yr englyn ar y gofgofofn:

*Ef oedd tŵr feddai oreu — dawn a dysg
Dynai dorf i'r goleu
Ac o'i flaen ca'i hi'n cyfleu — mew'n teg bwyll
Hawddle i gannwyll ei feddwyl gynnau.*



Cwmni Drama Glannau Ifor a fu'n perfformio'r ddrama 'Hirnos a Gwawr'. Maent yn sefyll yn nhalcen hen adeilad a safai yng ngardd Rheithordy Llanrug; bellach yn safle tai Corlan y Rhos. Y Parchg Robert Parry yw'r 'gweinidog' ar y chwith yn y rhes gefn.

WYT TI'N COFIO YSGOL GLANMOELYN?

Daeth ymateb yn syth i atgofion Mrs G. M. Jones am hen ysgol Glanmoelyn yn y rhifyn diwethaf. Fe'i hanfonwyd gan Mrs Mair Parry, Llanllyfni (Crawia, Llanrug gynt), un arall o gyfranwyr ffyddlon i'r golofn hon. Mae hi'n cofio bod yn yr 'Ysgol Bach' yn Festri Capel Mawr yng ngofal dwy athrawes, Miss Williams, Ty'n Winllan, a Miss Polly Morris. Y cof sydd ganddi o'r Ysgol Bach yw gweld rhif dieithr ar y bwrdd du: 'y ffigwr 4 wedi ei gau, a minnau wedi arfer ei weld ar agor fel hanner 'swastica'. Mae'n enwi'r athrawesau a'r athrawon yn Ysgol Glanmoelyn: Miss N. Griffith, Waunfawr; Miss Parry (merch y Parchg Robert Parry); Miss Mary Madog Jones, Penisarwaun; a'r Prifathro, Mr D. T. Rees; 'A choeliech chi byth; Euthum drwy Ysgol Glanmoelyn o ddosbarth un hyd ddosbarth pump heb wybod mai Cymro oedd y Prifathro. Ni chlywais eferioed yn yngan gair o Gymraeg. Ymhen amser y deallais ei fod yn ddiacôn yng Nghapel y Bryngwyn.'

Mae'n ddiddorol darllen hanes taith Mrs Parry a'i chyfoedion o'r Crawia i'r Ysgol — nid ar hyd y ffordd i Sgwâr y Post, ond ar hyd y llwybrau cyhoeddus ar draws tir Tyddyn Mawr a Didfa. 'Roeddem ni, blant

Crawia, yn mynd i'r Ysgol drwy'r caeau. Cychwyn drwy Gae Ffynnon, gyferbyn â Thalysarn, heibio i fferm Tyddyn Mawr, ar draws tri chae hyd at Didfa, croesi'r Ffordd Bost i gae Pen Cae, a throi i'r chwith am yr Ysgol. Yn anffodus, roedd afon fach a phont drosti rhwng caeau Tyddyn Mawr a chae Didfa. Roedd yno sil-y-don, a themtasiwn fawr oedd oedi yno i geisio eu dal.' Ond gwyddai pawb beth oedd y gosb am oedi gormod yn swyn yr afon: 'Gyda ein bod drwy ddrws y clôc-rûm, byddai Mr D. T. Rees yno gyda'i gansen, ac yn reddfol, elai ein llaw allan i dderbyn ei blas.'

JANE GLANDŴR: LLANRUG I LUNDAIN

Roedd Mrs G. M. Jones yn holi am yr eneth a eisteddai wrth ei hochr yn Ysgol Glanmoelyn, sef 'Jên Glandŵr'. Dyma'r wybodaeth a gefais gan Mrs Parry: 'Catherine Jane oedd ei henw. Roedd yn un o griw o blant, a phan fu farw ei thad, aeth ei modryb â hi i'w magu gyda hi yn Llundain. Priododd â phlismôn ac aeth i fyw i ganolbarth Lloegr. Bu farw fis Hydref 1953 yn 44 mlwydd oed. Mae ei chwaer, Eirlys, yn byw yn Cae Poeth, Llanrug, a chwaer arall, Dorothy (a oedd ond tair wythnos oed pan fu farw ei thad), yn byw ym Methel. Roedd plant Glandŵr yn gefndryd a ch'nitherod i mi, Mair Crawia.'

Alwyn a Sarah Jones

RACCA

PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau Fferm.

★ Wyau 'Free Range' Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO



Ysgol Glanmoelyn, Llanrug. Llun a dynnwyd gan y Rheithor, y Parchg Hugh Williams, ac sydd wedi ei gynnwys yn ei lyfr *Rural Welsh Parishes*. Fe'i cyhoeddwyd ar achlysur adnewyddu Eglwys Llanrug yn 1907.

HENDRE CHICKOTS?

'Sgwn i faint o ddarllenwyr yr *Eco* sydd wedi clywed am y tyddyn hwn, heb sôn am wybod ble mae? Hyd yn ddiweddar doeddwn innau 'chwaith erioed wedi clywed yr enw, ond yna, fe'i clywais ddwywaith o fewn wythnos gan ddau berson gwahanol. **Clywed**, meddwn, oherwydd welais i erioed mo'r gair yn ysgrifenedig, ac am wn i nid yw'r ddau berson a soniodd wrthyf amdano wedi gweld yr enw'n ysgrifenedig yn unlle. Does dim sicrwydd felly mai dyma'r sillafiad cywir!

Holi Gwilym Roberts, Fron Oleu, Llanberis, roeddwn i ynglŷn â rhai o deuluoedd y Clegir (mwy am hynny y mis nesaf, gobeithio), a digwyddodd ofyn i mi a wyddwn i ble roedd Hendre Chickots neu Hendre Chickod. Doeddwn i erioed wedi clywed am y lle, ac eto, ar ôl derbyn disgrifiad o'i leoliad, sylweddolais fy mod yn mynd heibio iddo'n rheolaidd wrth ymarfer rhedeg. Mae ar y llwybr cyhoeddus sy'n arwain o'r Fricsan, Cwm-y-glo, i fynyr creigiau i Ben y Bwlch Gwnnog. Mae'r adfeilion i'w gweld heddiw, yn swatio yng nghysgod craig ar ochr dde'r llwybr, ac ychydig yn is na Lôn y Clegir ger Pen Bwlch.

Eglurai Gwilym Roberts yr arferai plant y Clegir fynd i chwarae i adfeilion yr hen fwthyn, ond fod teulu yn byw yno ar ddechrau'r ganrif hon, ac yn galw'r lle ar lafar yn 'Hendra Chickots'. Bu Gwilym Roberts yn ddyfal chwilio cyfrifiadau ardal y Clegir, ond methodd a dod ar draws yr enw.

O fewn cwta wythnos i'r sgwrs gyda Gwilym Roberts digwyddais gwrdd â Mrs Mair Jones, Bonc, ger Bryn Bras. Wedi bod yn rhedeg llwybr Fricsan-Pen Bwlch roeddwn i ar y pryd, ac yn dod yn ôl i lawr yr allt heibio Bryn Bras. Holai Mrs Jones ble roeddwn wedi bod, ac o gael gwybod, meddai: 'O, fe fuoch heibio Hendra Chickod felly.' Yn ôl Mrs Jones, roedd teulu iddi hi yn byw yno ers talwm, ond iddynt symud yn

ddiweddarach i Gwm-y-glo. Credai hi fod teulu arall wedi bod yno wedyn, ac iddynt ddefnyddio rhan o'r tyddyn i gadw ieir; ac mai felly y cafodd y lle ei enw. Oes rhywun ymysg y darllenwyr all gadarnhau'r eglurhad hwn ar enw'r lle? Neu oes yna enw arall 'swyddogol' i'r tyddyn bychan hwn sydd bellach yn rhan o dir pori'r Llwyncoed.

CRUGIEIR Y CEFN DU

Mae tri o gyfeillion eisoes wedi cysylltu â mi ynglŷn â hanes saethu grugieir ar fynydd y Cefn Du, sef Mr Glyn Owen, Glan Gors, Ceunant; Mr Owen Jones, Garth, Ceunant; a Mr R. Williams, Llain Gwta, Llanrug. Deallaf hefyd oddi wrth Eifion Roberts, Becws Eryri, Llanberis, fod llun o weithwyr neu helwyr Bryn Bras ym meddiant gwraig o Lanberis. Gobeithio y gellir didol yr holl hanes a'i gyflwyno erbyn y mis nesaf.

TEULU BWLCH GWNNOG A CALIFORNIA

Yn ystod y mis cefais groeso ar aelwyd Elidir View, Cwm-y-glo, gan Mrs Mair Williams. Yno, yng nghwmni ei brawd, Mr Evan Davies, Ceunant, buom yn olrhain hanes teulu Bwlch Gwnnog. Mae'r wybodaeth berthnasol wedi ei hanfon i Galiffornia bellach. Efallai y bydd yn bosibl cadarnhau'r berthynas yn llawnach erbyn y rhifyn nesaf.

Gyda diolch i bawb am gysylltu ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro. Po fwyaf ohonoch sy'n cyfrannu ambell i bwt, mwyaf amrywiol fydd y golofn.

Anfonwch eich cyfraniad neu ffoniwch Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

CRIW CHWARELWYR

Ar dudalen 16 o'r *Eco* fis diwethaf mae llun criw o chwarelwyr ar achlysur ymddeoliad gŵr o Seion. Eisoes cysylltodd Mrs Meira Turner o'r Waunfawr a Mr Leslie Roberts, gynt o 4 Green Terrace, Deiniolen, i enwi nifer ohonynt ac fe gyhoeddir y wybodaeth y mis nesaf.



Adfeilion Tyddyn Hendre Chickots

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Gwasanaethau'r Sul: Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

Ebrill:

- 2 Parchg W. R. Williams (2)
- 9 Parchg S. O. Hughes (2)
- 16 Cyfarfod y Pasg i'r teulu oll (10)
- 23 Parchg John Morris (10)
- 30 Parchg W. R. Williams (10)

Mai:

- 7 Dim gwasanaeth - Cymanfa'r fro
- Tynfa Fisol:** Enillwyr Tynfa Fisol Cymdeithas y Cae Chwarae am fis Mawrth oedd — £40: Leti Williams, 'Refail (22); £25: Mrs Bezzy, Bryn

Eden (16); £15: Wendy Thomas, Bryn y Gof (55). O fis nesaf ymlaen bydd gwobr ychwanegol o £5!

Gwasanaeth bysiau: Gyda'r newidiadau yn y gwasanaethau i Waunfawr, Ceunant a Beddgelert ceir tri chwmni gwahanol yn gweithredu unwaith eto drwy'r pentref.

Sioe'r Pentref: Dosberthir y rhaglenni ar gyfer adrannau'r blodau a llysiau er mwyn galluogi'r pentrefwyr i ddechrau tyfu planhigion ar gyfer y Sioe a gynhelir ar 19 Awst.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis
871047

MODURDY PLAS BACH

CAEATHRO
Ffôn: C'fon 672072
Gwerthu, Trwsio
Trin Cyrff
H.P. ar gael

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



**BYSIAU ARFON
LLANRUG**

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.

Y Llaw sy'n Siglo'r Crud gan Selwyn Pritchard, Llanberis

Cyfraniad y Merched (2)

Beatrice Alice Jones 1891-1987

Er nae yn enedigol o Lanberis y mae enw Beatrice Alice Jones, Stryd Ceunant gynt, rwy'n siŵr yn adnabyddus i ran helaeth o'r ardalwyr.

Ganed hi ym mhentref Walwen, Treffynnon, yn yr hen sir Fflint. Diau ei bod wedi dangos ymroddiad a brwdfrydedd at waith yn gynnar yn ei bywyd, oherwydd wedi i'r teulu symud i ardal Bagillt, derbyniodd dystysgrif oddi wrth fwrdd yr ysgol leol am bresenoldeb cyson.

Rhoddodd ei bryd ar nyrsio a thua deng mlynedd yn ddiweddarach gwnaeth gais am swydd ym Mhontypridd. Clodfawr iawn oedd y tystlythyrau amdani ac ymhen ychydig cafodd ei hun yn nyrsio yn Ysbyty'r Rhyfel yng Nghaer. Roedd y rhyfel yn ei anterth erbyn hynny, a mawr oedd ei pharch gan y staff yn ogystal â'r milwyr oedd dan ei gofal.

Mae'n bur debyg iddi gael yr un profiadau ac a gafodd nifer eraill o nyrsus yn y cyfnod hwnnw. Er enghraifft, ym mis Gorffennaf 1916, derbyniodd y Parchg a Mrs J. Evans Owen, gweinidog eglwys Nant Padarn, lythyr teimladwy iawn gan un Sister Gladys Owen . . . 'Ni raid i mi wrth newyddiaduron i ddweud fod y storm fawr wedi torri arnom o ddifrif. Pan ddeuthum i mewn i ddechrau ar fy nyletswyddau heno, yr oedd ein ward yn llawn at y drws o gleifion newydd — mwy na'u hanner yn disgwyl cael trwsio eu briwiau. Erbyn hyn (un o'r gloch y bore), mae pawb wedi cael triniaeth ac y maent yn cysgu'n drwm, wedi llwyr flino.

'Ddoe (dydd Sul) daeth 260 o gleifion i mewn. Ymhen ychydig oriau byddant wedi'u hanfon ymaith i Loegr, oherwydd y mae miloedd yn mynd drwy'r 'Clearing Stations'. Yr oedd tair mil heddiw mewn un stesion yn disgwyl dod i lawr am driniaeth — druain bach. Credant i gyd fod dechreuad y

diwedd wedi cychwyn. Bendith Duw arnynt.'

Yn 1919, a'r rhyel drosodd erbyn hynny, trodd Beatrice Jones ei hwyneb tuag at Sir Gaernarfon, a daeth i Lanberis. Roedd ei mham yn bryderus iawn fod ei merch mor bell i ffwrdd oddi cartref ym mherfeddion Eryri, ac ardal y chwareli mor ddieithr iddi!

Roedd yn Ddydd Llun Diolchgarwch hynod o braf, ac ar blatfform y stesion leol roedd mintai o'r 'Nursing Committee' wedi ymgynnull i'w chroesawu i Lanberis am y tro cyntaf. Ym mysg y swyddogion roedd Mrs Gough Owen a Mrs Roberts, mam y diweddar Dr Noel Roberts. Canai clychau'r Eglwys dros y pentref, ac yn naturiol ni allai'r ferch ifanc lai na sylwi ar yr hyn oedd yn digwydd, ac meddai un o'r pwyllgor wrthi: 'You see, the church bells are ringing to welcome you to Llanberis. It's Thanksgiving Day for all of us.'

Cyn hir roedd Beatrice Jones wedi ymgartrefu yn y pentref ac wedi llwyddo i gael lloches gyda Mrs Rowlands, Beehive (Siop y Spar heddiw). Roedd i aros yno am chwe mis ond gan fod Mrs Rowlands yn cynnal ei bywoliaeth drwy gadw pobl ddieithr arhosodd yno am gyfnod hwy. Bu iddi adael ymhen hir a hwyr, a symud i Ffordd Capel Coch at deulu na allai weld lygad yn llygad â'u gilydd bob amser. Roedd cwerylon bach dibwys yn amharu ar y gyfathrach deuluol a chawsant gyngor gan Beatrice Jones ar sut i gymodi a deall eu perthynas â'u gilydd yn well, sef trwy ddechrau magu teulu ar unwaith. Buan iawn y tawelodd yr anghydfod ac erbyn heddiw


nid yw'r cwerylon bach yn ddim ond rhan o hanes.

Yn y cyfnod ar ôl y Rhyfel Mawr roedd tlodi yn yr ardal ac nid oedd glanweithdra yn uchel iawn ar restr llawer o deuluoedd. Pan fyddai Beatrice Jones yn mynd o gwmpas yn dilyn ei gwaith fel nyrs gymuned, yn aml iawn byddai perchennog rhyw siop arbennig yn ei chyfarch: 'Cymerwch dipyn o dda-da neu

ddarn o siocled — 'does wybod pa bryd y cerwch chi bryd o fwyd nesaf.'

Bûm yn ffodus iawn i gael sgysiaid difyr gyda merch Beatrice Alice Jones, sef Miss Glenys M. Parry, S.R.N., Stryd Ceunant, Llanberis, sydd wedi dilyn olion traed ei mham ac wedi dringo i uchelfannau ei phroffesiwn fel nyrs. Diolch iddi am y wybodaeth yn yr erthygl hon.

D'EWYRTH WIL



O glywed am farwolaeth Mrs Maggie Humphries, Rhydfadog, Deiniolen, ym mis Chwefror daeth llu o atgofion plentyndod yn ôl i mi.

Amser hynny fel Maggie Rowlands y siop yr o'n i'n adnabod Mrs Humphries. Y siop a gedwid ganddi hi a'i chwaer.

Rwy'n cofio mynd yno ar negas i D'ewyrth Wil ond ni i nôl rhai o'r cacennau fyddai'n cael ei gwneud gan y chwaer a'u gosod ar y 'stand' gwydr yny ffenest. Nôl sigarennau i D'ewyrth Wil y byddwn i. Capstan.

Yn y llun ohono yn gorwedd yn y 'float' mae D'ewyrth Lew, sef Lewis Lewis, Ty'n y Weirglodd gynt, a fo oedd perchennog y ceffyl sydd yn y llun); D'ewyrth John, a nhad, Robert Lloyd Jones. Mynd am dro mae'n debyg i'r gwaelodion i hel wya cornchwilog. Mi fyddai D'ewyrth Wil yn bwyta tri o'r wya bach, wedi'i ffrio, i de.

O feddwl am geffyl Dewyrth Lew mae gennyf go mynd efo

Marian, fy nghyfeither, i'w weld yn cael ei bedoli yn yr efail wrth ymyl Gors Bach.

Cafodd Dewyrth Wil ei glwyfo'n ddrwg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a bu ar flaglau am beth amser wedyn. Fe waethygodd ei gyflwr a bu'n methu symud o gwbl am y pum mlynedd ar hugain olaf o'i oes.



Er gwaethaf hyn i gyd yr oedd yn gymeriad hoffus a siriol ac yn hynod boblogaidd yn yr ardal. Bu gofal ei fam — fy nain — ohono yn arbennig a gyda help y teulu i gyd fe wnaed ei fywyd mor gyfforddus a phosib o dan yr amgylchiadau.

Efallai y daw y llun hwn ag atgofion yn ôl i ddarlennwyr Eco'r Wyddfa.

EIRLYS LLOYD JONES
FFORDD DEINIOL, DEINIOLEN

Heliwch eich traed
am fargen i

**SIOP
ESGIDIAU
GLENS**
Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn: 871470



GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440


Ymchwil yr Arennau: Bu Mrs Myfanwy Thomas a Mr Elwyn Searell Jones yn casglu arian yn y Nant er budd Ymchwil yr Arennau. Gwnaed casgliad o £31 a diolchir i bawb a gyfrannodd.

Rehoboth: Anfonwn ein cofion gorau am wellhad buan at Mr Tom Gwyn Pritchard sydd yn aros yng nghartref ei ferch Alwena yn Llanllyfni ar hyn o bryd. Gobeithio byddwch yn gwella'n fuan. Mae'n dda gweld bod Mr Gwilym Searell Jones yn well, a'i fod wedi gallu dod yn ôl atom i'r capel erbyn hyn.

Cynhaliwyd Cyfarfod Dydd Gweddi Chwirydd y Byd yn y capel ddydd Gwener, Mawrth 2, a chyfarfod gweddi'r ofalaeth nos lau, Mawrth 9.

Cydymdeimlwn â Mrs Betty Humphreys a'r teulu yn y brofedigeth o golli ei chwaer, Mrs Dorothy Williams.

Llythyr o Rwsia: Roedd yn dda gennym glywed bod Bleddyn Jones



Bleddyn Jones yn dangos y llythyr ddaeth o Rwsia.

wedi derbyn llythyr o Rwsia yn diolch iddo am yr anrheg Nadolig a anfonodd trwy Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Llwyddiant Eisteddfodol: Mewn cystadlaethau a oedd yn agored i drigolion bro'r Eco yn Eisteddfod Llanberis yn ddiweddar, bu Mr H. W. Jones, Glaslyn, yn fuddugol ar ganu emyn, a daeth ef ac Alun yn fuddugol yng nghystadleuaeth y ddeuawd agored. Llongyfarchiadau i'r ddau ohonynt.

Adref o'r Ysbyty: Croesawn Mrs Rhian Ellis, Ty'n Llidiart; Mrs Edwards, Coed Gwydryn; Mr Aled Taylor, Baladeulyn; a Mr Evan Hughes, 3 Bryn Golau, adref o'r ysbyty gan ddymuno gwellhad buan iddynt.

Diolch: Dymuna Deborah a Dilwyn, Dôl Erddi, ddiolch i bawb fu'n garedig wrthynt tra bu eu merch fach, Rachel, yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cydymdeimlo: Anfonwn ein cydymdeimlad i drigolion y pentref a golodd rhai annwyl iddynt yn ystod y mis.

Yn dawel mewn ysbyty ym Manceinion bu farw mam Mrs Linda Griffith, Perthi, a chydymdeimlwn â hi a'r teulu yn ei phrofedigaeth.

Anfonwn ein cydymdeimlad i Mr Gary Davies a theulu Hafan yn eu profedigaeth o golli tad Gary yn ddiweddar.

Yn dawel ar ôl gwaeledd hir bu farw Mr Hugh Parry, Bro Waun. Anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf i'w briod Mrs Parry ac i Dylan, Beti, Brian, Sharon, Yvonne, Terry a'u teuluoedd yn eu profedigaeth o golli eu tad.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Lindsey a Tudur Williams, Eirianallt, ar enedigaeth merch fach, chwaer fach i Steven.

Priodas: Dymuniadau gorau i Shoned Rees, Pant Afon, ar ei phriodas ac Iwan Lloyd Griffith o Ben-y-groes.

Diolch: Dymuna Shoned ac Iwan ddiolch am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Eglwys St. Ioan: Ar Fawrth 1, aeth cyfeillion yr Eglwys i gael cihnio Gŵyl Ddewi ym Mhlas y Coed, Betws Garmon. Y wraig wadd oedd Mrs M. Vaughan Jones, Hafod-y-coed, a diolchwyd iddi am sgwrs ddiddorol iawn gan Mr Harmond.

Dymunodd Mrs Idris Jones yn dda i'r Parchg Ioan W. Jones a'i wraig sy'n symud o Gaernarfon i fod yn ficer Glanogwen, Bethesda.

Diolchodd hefyd i Mr Bob Eagleston am drefnu'r cinio.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i bawb a gymerodd ran yn yr Eisteddfodau Cylch, a phob lwc i'r rhai a fu'n llwyddiannus i fynd ymlaen i'r Eisteddfodau Sir.

Wedi prysurdeb y paratoi at yr Eisteddfodau rydym yn awr yn ôl i'r drefn arferol ac ar Fawrth 8 daeth Gwyn Williams o gwmni teledu Fi-Ti-Ti-Fi atom, ac fe eglurodd sut roedd gwneud rhaglen deledu, ac yna fe fu pawb mewn grwpiau bychain yn paratoi rhaglen fer, a chawsom gryn hwyl yn gwylio'r cynnyrch. Diolchwyd i Gwyn gan Dewi.

Nos Fercher, Mawrth 15 daeth Egryn Roberts atom yn egluro ei waith gyda'r Heddlu. Cafwyd hwyl fawr yn cael hoel bysedd pawb, a datgelu pwy oedd y lleidr — twt, twt, Anti Heulwen! Diolchwyd i Egryn gan Anna.

Nos Wener, Mawrth 31 am 7.30 o'r gloch yn y Ganolfan bydd noson lansiô llyfr dathlu deng mlynedd cyntaf Antur Waunfawr. Bydd croeso cynnes i bawb.

Enillwyr Clwb 300 am fis Chwefror: £40: Mrs Beryl Walker, Snowdonia Park Hotel; £25: Mr Eurig Wyn, Y Frenni; £10: Mrs J. Jones, Glyn Ceris.

Y Gymdeithas Lenyddol: Daeth y tymor i ben gyda'r cyfarfod ar 20fed o Fawrth. Y gŵr gwadd oedd Mr Maldwyn Thomas, Bangor, a thestun ei ddarlith oedd 'Iaith Pawb'.

Cafwyd noson ddiddorol iawn gyda Mr Thomas yn ein diddori efo dwy stori anhygoel; a buasem i gyd wedi medru gwrando ar lawer mwy!

Diolch yn fawr i'r merched am drefnu lluniaeth a phaned ar ddiwedd y cyfarfod.

Antur yn Casglu Caniau: Yn dilyn chwe mis o ailgylchu papur swyddfa mae Gwasanaeth Ailgylchu Caernarfon, rhan o Antur Waunfawr a leolir yn Dinas, Llanwnda, wedi dechrau casglu caniau diod gwag. Bydd ysgolion lleol yn derbyn blychau casglu caniau neu gellwch fynd a'r caniau yn syth i Antur Waunfawr. Ffoniwch Huw Davies ar (01286) 831640 am fwy o fanylion.

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840



Argraffu a Ffotogopio Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

48 Stryd Fawr
LLANBERIS

Ffôn/Ffacs: 870200

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN
PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun - Sadwrn
10.00 - 4.30

Ffôn: Llanberis
870922



ORIEL
PLAS
GWYN

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau
o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon - Llanberis

Ffôn/ffacs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o

Welyau a '3P/Suites'.

Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'

5,000 llathen sgwâr o garpedi

mewn stoc - allwch chi

fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Wavell
Roberts
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Clwb yr Henoed: Mwynhaodd aelodau Clwb yr Henoed ginio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Dolbadarn, ddydd Iau, Mawrth 2. Wedi'r wledd cafwyd cyngerdd yng ngofal Lleisiau Lliwedd dan arweiniad Mrs Mattie Hughes. Diolchodd llywydd y Clwb, y Parchg John Pritchard, i'r ysgrifenyddion, Mrs Carol Sage a Mrs Lis Griffiths am drefnu'r cinio. Dymunwyd yn dda hefyd i ysgrifennydd newydd y Clwb, Mrs Mattie Hughes, a diolchwyd iddi am ymgymeryd â'r gwaith. Mrs Gwyneth Clarke yw trysorydd gweithgar y Clwb ers blynnyddoedd.

Cawl a Chân: Cynhaliodd Lleisiau Lliwedd noson o Gawl a Chân i ddathlu Gŵyl Ddewi yn festri Capel Coch, nos Iau, Mawrth 2. Yr oedd yr elw at brynu piano i Theatr Gorffwysfa. Cymerwyd rhan hefyd gan barti Cân Actol plant Capel Coch oedd wedi bod yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod yr wythnos cynt.

Capel Coch: Cynhelir Cyfarfod Gweddi yr Ofalaeth yn festri Cefnywaun, Deiniolen, nos Fercher, Ebrill 5, am 7 o'r gloch. Os oes rhywun yn awyddus i gael cludiant i Ddeiniolen rhwch wybod i'r Parchg John Pritchard ar 872390.

Cymdeithas Eglwys St. Peris a St. Padarn: Dathlwyd gŵyl ein nawddsant gan yr aelodau yng Ngwesty Dolbadarn, nos Iau, Mawrth 2. Dechreuwyd trwy weddi dan arweiniad y Rheithor, y Parchg Philip Hughes. Estynnwyd croeso iddo ef a Mrs Hughes ac i'r siaradwr gwadd, John Ogwen, gan y cadeirydd, Mrs Ann Parry-Jones. Ar ôl gwledd flacus draddodiadol mwynhawyd orig ddifyr yng nghwmni John Ogwen. Derbyniwyd ymddiheuriad am ei habsenoldeb oddi wrth Maureen Rhys sydd ar hyn o bryd yn brysur yn gweithio ar gyfres newydd o 'Lleifor'. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Sandra Hughes, ac i John Ogwen (yn absenoldeb ei wraig) ar ran y Gymdeithas gan Misses Joyce a Sheila Foulkes. Diolchwyd i bawb yn huawdl iawn gan Mr Ralph Jones.

Cyfeillach Eglwys Jerusalem: Cynhaliwyd cyfarfyddiad cyntaf 1995 o'r Gyfeillach, o dan lywyddiaeth Mr Robert Thomas, ar y 7fed o Fawrth, pryd y cafwyd sgwrs ddiddorol gan Mr John Hugh Hughes, Capel Coch, ar 'Hen Gapeli Gwynedd'. Diolchwyd i Mr Hughes gan Mr Hugh R. Jones ac yn dilyn — dros luniaeth a luniwyd gan y chwiorydd — cafwyd trafodaeth fywiog. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar bnawn Mawrth, Ebrill 4ydd, pryd y bydd Mrs Laura Davies yn rhannu ei phrofiadau ym Mhacistan yn ystod ei ymweliad â'i merch sydd yn byw yno.

Disgo'r Carnifal: Mewn disgo a gynhaliwyd yn Ysgol Dolbadarn ar nos Wener, 17 Mawrth, dewiswyd Leona Marie Lloyd, 22 Dôl Elidir yn frenhines. Y ddwy weinyddes yw Gwen Williams, Halford Hill; a Kirsty Lynette Lloyd, 22 Dôl Elidir; a'r gwas yw Richard Wyn Jones, 39 Maes Padarn.

Diwedd y Rhyfel: Mae Cyngor Cymdeithas Llanberis wedi ffurfio pwyllgor i drefnu gweithgareddau i

gofio diwedd yr Ail Ryfel Byd 50 mlynedd yn ôl. Bwriedir cynnal y gweithgareddau, a fydd yn cynnwys gwasanaeth wrth y Gogolofn a chyfarfod yn Eglwys St. Padarn, ddydd Llun, Mai 8fed. Ceir rhagor o fanylion yn rhifyn nesaf yr Eco. Yn y cyfamser byddai Ken Jones, 19 Maes Padarn (ffôn 870371) yn falch o glywed gan unrhyw rai o fechgyn Llanberis a Nant Peris a fu yn y rhyfel ac a garai wybod am y gweithgareddau. Bydd croeso arbennig iddynt i ymuno â'r cwmni ar Fai 8fed.

Genedigaeth: Ar Ionawr 25ain, yn Ysbyty Gwynedd, ganwyd merch fach, Sian Elin, i Carys ac Arwyn, 21 Stryd Goodman.

Diolchiadau

Dymuna Joan Hughes, 1 Stryd Tomos, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau trwy fro'r Eco am yr holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbytai ac ar ôl dod adref.

Dymuna Brenda ac Eurwyn Griffiths, Summer Hill, ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar achlysur dathlu eu Priodas Arian yn ddiweddar.

Dymuna Carys ac Arwyn Williams, 21 Stryd Goodman, ddiolch yn fawr iawn am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur genedigaeth eu merch, Sian Elin. Diolch yn fawr iawn.

Undeb y Mamau: Pnawn dydd Mawrth, 7 Mawrth, cynhaliwyd cyfarfod o'r Undeb yn Festri Eglwys St. Padarn. Mrs Dilys Phillips gymerodd y rhan ddefosiynol goriadol.

Ein Rheithor, y Parchedig Philip Hughes oedd y gŵr gwadd a chafwyd darlenniadau o'r Beibl ac fe ganodd y Rheithor emynau newydd i gyfeiliant ei gitâr ac fe ymunodd yr aelodau yn y canu. Mwynhawyd y pnawn yn fawr iawn.

Dymunwyd gwellhad buan i'r aelodau sydd heb fod yn mwynhau iechyd da ar hyn o bryd.

Diolchwyd i Mrs Nellie Morris, Miss Kathleen Pritchard a Mrs Edwards am y baned gan Mrs Bet Hughes a Mrs Jean Roberts. Enillydd y raffl oedd Mrs Clara Roberts.

Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Hugh O'Donnell, Grove House, ar ddathlu ei ben-blwydd yn ddeunaw oed ar Chwefror 17eg.

Enillwyr Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Mawrth — £35: Cheryl Jones, 1 Bro Glyder, Nant Peris (81); £25: Mr A. Jones, Gwesty Dolbadarn (73); £15: Mrs M. Roberts, Gilfach (111); £10: Mrs G. Rudkin, Gerafon (24); £5: Mrs L. Williams, Tan y Fron, Fach-wen (182).

Ysgol Dolbadarn: Yn dilyn ymweliad dosbarth Mrs Owen ag arddangosfa yn yr Amgueddfa, daeth Mrs Elen Roger Jones i roi sgwrs i'r plant am hen ddillad. Bu Jenny Hill, Swyddog Addysg a Chadwraeth Parc Padarn, yn sôn wrth ddosbarth Mr Williams am yr ymgais i greu amgylchedd addas i gynnal bywyd gwyllt yn y Parc. Ymwelodd dosbarth Mr ap Elwyn â'r gwaith trydan yn Ninorwig

EISTEDDFOD PLWYF

Cynhaliwyd Eisteddfod Iwyddiannus yn festri Capel Coch, nos Wener, Chwefror 24. Yr oedd cynulleidfa gref wedi dod i gefnogi'r Eisteddfod a'r beirniaid wedi eu plesio gan safon y cystadlu. Mrs Deilwen Jones, Bethel, oedd y beirniad cerdd a'r Prifardd Selwyn Griffith, Penisarwaun, oedd y beirniad adrodd, gyda Mrs Glenys Jones, Groeslon yn beirniadu'r adran lenyddol a Mrs Jane Roberts, Llanberis, yn beirniadu'r gwaith celf. Mrs

Falmai Pritc arweinyddion, oedd y cyfeilydd y Llywydd. Dy gefnogaeth a ga cyfarfod yn ca Eisteddfod nes diddordeb yn

Dyma ganlyniadau'r Eisteddfod:

Canu dan 4: 1, Iwan; 2, Bedwyr; 3, Sera. Llefaru dan 4: 1, Sarah; 2, Iwan; 3, Bedwyr. Canu 5-7: 1, Ian; 2, Carwyn; 3, Angharad a Joseph. Llefaru 5-7: 1, Angharad; 2, Joseph; 3, Carwyn. Canu dan 8: 1, Amy; 2, Carys; 3, Gruffudd a David. Llefaru dan 8: 1, Elin; 2, Rhiannon; 3, Sioned, Alaw a Gruffudd. Canu 8-10: 1, Dylan; 2, Gethin. Llefaru 8-10: 1, Iwan; 2, Elin; 3, Jonathan. Canu 10-12: 1, Manon; 2, Dafydd. Llefaru 10-12: 1, Bethan. Grŵp Llefaru dan 8: 1, Parti Elin. Unrhyw offeryn cerdd dan 12: 1, Dafydd; 2, Nia; 3, Sioned. Cân Actol dan 12: Parti Sian. Canu 12-15: 1, Mari; 2, Leanne; 3, Claudette. Llefaru 12-15: 1, Mari. Deuawd 12-15: 1, Mari a Claire; 2, Leanne a Claudette. Cân Werin 12-15: 1, Mari; 2, Claudette; 3, Leanne. Unrhyw offeryn cerdd 12-15: 1, Mari; 2, Ffion; 3, Gwawr. Unawd 19-50: 1, Dilys Williams. Unawd dros 50: 1, Wmffra. Deuawd dros 19: 1, Mabon ac Wmffra. Llefaru 15-19: 1, Erica Jones. Canu'r piano (Cwpan Coffa Miss Williams, Summer Hill): 1, Ffion Hughes. Parti Cerdd Dant: 1, Parti'r Foel; 2, Parti Padarn. Triawd gwerin: 1, Parti Gareth. Côr: 1, Lleisiau Lliwedd. Rhyddiaith dan 4: 1, Iwan, Manon, Glesni, Sioned, Bedwyr; 2, Alaw, Sara Parry, Donna, Eirian, Albert, Ben; 3, Sarah, Llion, Janie, Gethin, Rebecca, Josh, Cai, Sara Jones, Talfan, Angharad. 5-7: 1, Andrew; 2, Carmen, Carwyn, Angharad; 3, Lenny. Dan 8: 1, Gruffudd; 2, Sioned, Elin, Rhiannon; 3, Carys, Amy. 8-10: 1, Gethin Sion, Sarah Ann, Gwen, Jonathan; 2, Sonia, Awen, Iwan Jones; 3, Llifon, Theron, Nia. 10-12: 1, Lona, Diana; 2, Dafydd; 3, Caryl, Vicky, Simon, Monica, Bethan. 12-15: 1, Ffion; 2, Rachel, Mari; 3, Gwawr. Gwaith llaw dan 4: 1, Alaw, Iwan; 2, Sioned, Eirian, Ben; 3, Manon, Janie, Donna, Talfan; 4, Angharad, Sera Parry, Glesni, Gwion. 5-7 oed: 1, Laura, Tomos Parry, Andrew Arkle; 2, Carwyn, Ceri; 3, Alice, Ian Wyn, Gwyn. Dan 8: 1, Gruffudd, Amy; 2, Rhiannon, Sioned; 3, Carys, Elin. 8-10: 1, Gethin Sion, Iwan; 2, Rhiannon, Sarah; 3, Cai, Awen. 10-12: 1, Dafydd Sion, Owain; 2, Nia, Bethan; 3, Simon, Caryl. 12-15: 1, Rachel; 2, Claire, Gwawr; 3, Mari. 15-19: 1, Erica Jones. Linell Gol: 1, Mrs Diana Daniel, Stryd Newton.


Daeth Steddfod i'r fro eto 'leni A chanu ac adrodd a gawn ni; Bydd plantos Llanber Yn dipyn o sêr A'r teidiau a'r neiniau'n gwirioni.



Cystadleuw



Ffion Hughes â Chwpan Coffa Miss C. Williams, Summer Hill.



Leanne, Claudette, Claire a Mari Wyn.

fel rhan o'u gwaith thema. Aeth rhai o'r plant i Blas Pengwaith i ganu ac adrodd adeg Gŵyl Ddewi. Diolch i bawb a gefogodd y disgo yn yr Ysgol ar Fawrth 1, a'r Bingo yng Nghlwb y Lleng Brydeinig ar Fawrth 24. Cawsom ymweliad gan Mr Hywel James, Llyfrgellydd y Sir, ac aethpwyd â'r plant i Lyfrgell y pentref i'w hannog i ymaelodi yno. Yr Urdd: Diolch i Mrs Nan Humphreys am helpu'r plant efo'r gwaith llaw ar gyfer Eisteddfod yr

Urdd. Roedd dwsin o blant wedi bod ynglŷn â'r gwaith, sef Becky Jones, Bethan Roberts, Iwan Jones, Iwan Morris, Ffion Parry, Gethin Pritchard, Elin Roberts, Ceri Jones, Clifford Jones, Mari Harding, Claudia O'Donnell a Gemma Waterton. Llongyfarchiadau i'r plant hynaf am ennill y wobwr gyntaf yn yr Eisteddfod Gylch. Ar Fawrth 22, daeth Jane O'Donnell i gynnal sesiwn aerobics gyda phlant hynaf yr Adran.

LLANBERIS

hard a Mr Elwyn Jones oedd yr a Mrs Hefina Jones a Mr Gareth Jones on. Mrs Eluned Jones, Bae Colwyn, oedd nuna aelodau'r pwyllgor ddiolch am y wyd wrth ailgychwyn yr Eisteddfod. Bydd ei gynnal yn fuan i drefnu ar gyfer yr f, ac estynnir gwahoddiad i bawb sydd â r Eisteddfod i'r cyfarfod hwnnw.



r dan 7 oed.

Cyfarfod Gwedd: Cynhaliwyd cyfarfod Dydd Gwedd Byd-eang y Chwirydd yn Ffestri Capel Coch, nos Wener, Mawrth 2. Cymerwyd rhan gan chwirydd o Eglwys Sant Padarn, Jerusalem, Nant Padarn a Chapel Coch. Cafwyd annerchiad gan Mrs Dilys Baylis, a'r organydd oedd Mrs Iona Jones.


DIOLCH O BELL

(Parhad o'r dudalen flaen)

Yn ei llythyr dywedai Marina Kolic ei bod hi, cyn y rhyfel, yn byw mewn lle oedd yn ganolfan dwristaidd boblogaidd. Erbyn hyn mae hi'n byw mewn gwersyll i ffoaduriaid gan fod ei chartref wedi cael ei ddinistrio. Roedd Marina wedi anfon llun ohoni ei hun. Yn y llun roedd pentwr o sanau. Mae mam a nain a modryb Marina yn gwau'r sanau i'w hanfon i'r Almaen a Lloegr er mwyn ennill rhywfaint o arian i brynu bwyd a llyfrau ysgol.

O Croatia yr anfonwyd y cerdyn a dderbyniwyd gan Manon Jones, Gorwel, Gallt y Foel, Deiniolen, hefyd. Roedd y cerdyn wedi cael ei anfon gan ferch fach o'r enw Ivana Korov. Cafodd Manon luniau o Ivana a'i brawd bach Mario hefyd. Mae Mrs Anwen Jones, mam Manon yn bwriadu anfon llythyr arall at Ivana cyn bo hir.

O Rwsia y daeth y llythyrau a dderbyniodd Simon Chong o Lanberis, a Bleddyn Jones o Nant Peris. Roedd hynny braidd yn annisgwyl o gofio bod y bocsus wedi cael eu hanfon i Bosnia a Croatia. Ond mae yna eglurhad syml iawn. Cawsom wybod gan Ymgyrch Plentyn y Nadolig bod rhai bocsus wedi



Simon Chong

cael eu hanfon i Romania a Rwsia. Yn Rwsia mae'r elusen yn cefnogi cartrefi plant mewn llefydd fel Blon ger Chernobyl, lle dioddefodd cymaint o ganlyniad i'r ddamwain yn yr orsaf niwcliar, ac Ulyanovsk lle mae tri chartref plant yn derbyn cymorth. O Ulyanovsk yr anfonwyd y llythyr a gafodd Bleddyn, ac yr oedd y bachgen a anfonodd y llythyr yn diolch yn gynnes am yr anrhegion a dderbyniodd ac yn awyddus i Bleddyn ysgrifennu ato eto.

Yr oedd llythyr Simon hefyd yn diolch yn fawr am yr anrhegion, ond gan fod y cyfeiriad mewn llythrennau

Rwsieg, nid yw Simon wedi gallu dirnad hyd yn hyn o ba ran o Rwsia y daeth y llythyr.

Mae'n dda gwybod bod y bocsus esgidiau wedi bod o ryw help bach i'r plant a'u derbyniodd. Mae'r llythyrau syml a ddaeth yn ôl yn cadarnhau gwerth yr ymdrech a wnaed i gefnogi'r Ymgyrch. Bydd Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn gwneud yr un peth eto y Nadolig nesaf, ac eisoes penderfynwyd y bydd y bocsus yn cael eu hanfon i Bosnia, Croatia, Rwsia, Romania a Rwanda. Mae'r elusen arbennig hon yn brysur yn yr holl wledydd hynny trwy gydol y flwyddyn.



Ivana Korov o Croatia

PYSGOTWYR YN ENNILL Y DYDD

gan HUW HUGHES

Yn ystod Mehefin 1992 sylweddolodd aelodau'r Gymdeithas Bysgota bod rhywbeth mawr o'i le ar ansawdd dŵr Llyn Padarn. Yr oedd lliw gwyrdd y dŵr (yr un lliw â bwrdd biliards) yn arwydd bod y dŵr yn troi yn 'eutrophic', a hynny'n golygu bod peryg i'r torgoch ddiflannu o fewn ychydig flynyddoedd.

Roedd y pysgotwyr lleol yn gwybod bod lleihad yn nifer y torgoch yn y llyn yn arwydd sicr bod y dŵr yn amhur. Mae hynny yn peryglu ein holl hamgylchedd. Bu'n gryn ddirgelwch i'r Gymdeithas sut na fyddai trigolion Llanberis wedi sylwi bod y llygredd yn y llyn yn ei gwneud yn beryglus er enghraifft i nofio ynddo.

Cadarnhawyd ofnau'r pysgotwyr gan astudiaeth a wnaed gan Goleg y Brifysgol ym Mangor, ac aed ati gyda chymorth yr 'Anglers Conservation Association' i ddwyn achos llys yn erbyn Dŵr Cymru i geisio gorfodi'r cwmni hwnnw i osod offer tynnu 'phosphates' o'r dŵr sy'n arllwys i afon y Bala o waith carthffosiaeth Llanberis.

Aeth dwy flynedd heibio cyn i'r achos gyrraedd y Llys Sirol yng Nghaernarfon. Agorodd yr achos ar Fawrth 13 eleni. Er syndod mawr, ar ddechrau'r achos dywedodd bargryfreithiwr ar ran Dŵr Cymru bod y cwmni wedi gosod yr offer angenrheidiol (gwerth degau o filoedd o bunnoedd) yn Llanberis i lanhau'r dŵr. O safbwynt y Gymdeithas

Bysgota dyna'r ddadl wedi ei hennill, ac roedd y fuddugolieth yn felys. Wrth gwrs, parhaodd yr achos dros chwe niwrnod, er mwyn penderfynu a ddylid talu iawndal am y niwed a achoswyd i'r pysgodfeydd. Disgwylir dyfarniad y Barnwr ar hynny ar Fai 22ain. Ond fe gafwyd addewid gan Dŵr Cymru y byddai yn rheoli arllwysiad y 'phosphates' i raddfa is o lawer nag y gobeithiwyd ei sicrhau dan orchymyn llys.

O ystyried popeth mae'r rhagolygon am ddyfodol Llyn Padarn yn dda iawn. Ond wrth edrych yn ôl, prin iawn fu'r gefnogaeth a gafodd y Gymdeithas Bysgota gan y sefydliadau lleol i ymladd yr achos. Ond bellach mawr obeithir y bydd pawb yn cadw llygaid barcud ar y sefyllfa er sicrhau na welir yr un peth yn digwydd eto. Ond beth feddyliwch o hyn? Wedi'r achos llys, ac wedi holl addewidion Dŵr Cymru, mae rhyw si bod y 'phosphate stripping' wedi ei atal oherwydd rhyw nam yn y gwaith. Tybed a yw hyn yn wir? A oes rhywun a fedr ateb?

RHODD I FRYN SEIONT



Lis Roberts yn cyflwyno'r sic i'r Chwaer Beryl Jones. Yn y llun hefyd mae'r Nyrsus Evelyn Angel, Audrey Jones a Dylan Jones ac aelodau o staff y Coleg a fu'n trefnu'r Cyngerdd.

Cyflwynwyd sic o £2,000 i Uned MacMillan Ysbyty Bryn Seiont y dydd o'r blaen gan drefnwyr Cyngerdd Gŵyl Ddewi a gynhaliwyd yn y Brifysgol ym Mangor ar Fawrth 4. Rhoddwyd £1,500 hefyd i'r gwaith Ymchwil Awtistig o fewn y Coleg. Mae amryw o bobl bro'r Eco yn aelodau o'r corau a gymerodd ran yn y Cyngerdd, a gyflwynwyd gan Dei Tomos, Nant Peris. Mae Lis Roberts, Bangor (Llanberis gynt) wedi bod yn cyd-drefnu'r cyngerdd blyneddol hwn ers un mlynedd ar ddeg. Mae hi'n rhoi'r gorau iddi eleni, ond mae ei chydweithwyr yn falch o ddweud y bydd cyngerdd eto'r flwyddyn nesaf, ar Chwefror 24, a bydd yr elw yn cael ei roi at waith Antur Waunfawr ac Antur Dyffryn Ogwen (Caffi Coed y Brenin).

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn:
(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

AMDDIFAD YN LIMBO

Rhagor o atgofion plentyndod yn Llanberis
gan Miss O. M. Davies, Bangor

(Yn y rhifyn diwethaf soniodd Miss Davies am ei modryb yn paratoi 'teas' i'r ymwelwyr.)

Gosodai Anti'r bwrdd i de yn y parlwr. Roedd bwrdd mawr 'mahogani' ar ganol y llawr a thraed pres yn fforchio allan oddi tano. Tebot a jwg arian, bara menyn ffarm a tharten blât. Pris y pryd oedd 1/6. Os y gofynnai rhai am gael aros nos byddai'r lloft ffrynt neu'r llofft ganol yn barod. Cofiaf, fwy nag unwaith, bod Anti, Evelyn a minnau yn cysgu efo'n gilydd yn y llofft fach — weithiau ar draws y gwely, weithiau ben-wrth-droed fel mewn tûn sardines — a'n brawd ar y llawr. Dim ond ein tŷ ni oedd yn dangos cardiau fel hyn yn York Terrace hyd nes y gwnaethpwyd hen wraig arall yn weddw. Byddai un neu ddwy wrthi'n brysur yn y rhestai arall a oedd yn agosach at y llidiart ar waelod y llwybr — tai llai ond twtiach — gan fod ganddynt wŷr i'w helpu. Nid oedd yn hawdd i'r trydydd rhestai ymuno yn y math yma o 'wneud ceiniog neu ddwy' gan nad oedd ganddynt ddrws yn yr iard a 'W.C.' arno, ac roedd yna dipyn o ffordd i lawr llwybr yr ardd i'r cwt twll-a-phwced!

I Ysgol Dolbadarn, dipyn o ffordd tu hwnt i'r Eglwys, yr aem yn haid. Weithiau aem drwy'r ffordd gefn, a alwem ni 'drwy'r coed', neu ar hyd y ffordd fawr — y Lôn Bost — heibio Stesion Wyddfa, Rhinws, Stesion Fawr, a gwestai Dolbadarn a Padarn Villa. Perthynai'r ddau westy i'r un teulu ac os y byddai yno briodas fe ddeuai'r pâr ifan allan ar y balconi ac fe dywelltid llond rhaw o geiniogau poeth i lawr ac yno y byddem yn cwffio a gwthio a gwylltio wrth ymdrechu i gasglu hynny a fedrem. Bu adeg, mae'n siŵr, pryd y byddai'r bobol fawr yn cael eitha sbort wrth weld y plant tlawd yn llosgi eu bysedd. Cerddem ym mhob tywydd, pan oedd haul crasboeth yn toddi'r tar nes ei fod fel triog

du; pan chwythai rhewynt ar draws y llyn; pan fyddai glawogydd gerwin yn dymchwel o gyfeiriad y Bwlch. Fwy nag unwaith fe gyrhaeddem yr ysgol yn hwyr gan weddio y gallem sleifio drwy Standard IV pan na fyddai Jabas Jôs y Bos wrth ei ddes. Ond roedd yno'n sefyll yn aml gan guchio dros ei sbectol ac yn bytheirio drwy ei fwstas — 'The Blaen Ddôl lot' fel y galwai ef ni. Gwylltiodd a bu'n rhaid i ni sefyll mewn llinellau gan ddal ein dwylo allan i dderbyn y gansen ar ein dwylo tyner. Gallaf deimlo'r llosgi hwnnw hyd heddiw. Ond teimlwn i yr anghyfiawnder yn fwy na'r boen a'r gwarth gan fy mod yn dioddef yn aro o losg-eira ar un o fysedd fy nhraed a hynny yn gwneud cerdded yn boenus ac araf. Cofiaf y byddid yn ceisio gwella'r llosg-eira drwy roi eli arno a elwid yn 'Sambuc' neu 'Snowfire'; dywedodd rhywun y byddai'n gwella pe curid y bys â dail pigog coeden celyn!

Yr unig beth a gofiaf am ddsbarth y babanod yw ein bod yn eistedd o gwmpas bwrdd yn plethu raffia coch a gwyrdd i wneud mat crwn. Roeddem wrth ein bodd efo'r athrawes a rhedem am y cyntaf tuag ati i gael cario ei bag. Ni ddaeth yn ôl i'r ysgol un tro a chlywsom ei bod wedi marw o'r diciâu. Pan euthum i'r ysgol fawr ac i Standard I roedd yn rhaid eistedd mewn desgiau hirion. Roedd map mawr o'r byd ar y wal a model o bentre canol-oesol yn y gongl. Gan mai Saesneg oedd iaith swyddogol addysg fe gynhelid y gwersi yn Saesneg, ac yn Saesneg y byddai'r athrawon yn ein dwrdio. Pan oeddynt yn teimlo'n glên fe droent i'r Gymraeg. Mewn gwers ar y Pla Du mentrais ddweud mai 'dyn du wedi marw' oedd y 'Black

Death', gan gofio brodorion yr India!

Gan fy mod yn ymgodymu'n dda â gwaith ysgol cefais bontio dosbarth dau a mynd ymlaen i Standard III lle y teyrnasai Miss Huws — twmpen o ddynes bochgoch, a llais fel utgorn ganddi pan fyddai'n flin ond a oedd fel mam i ni oll. Roedd yn byw yn Llanbabo a deuai i'r ysgol bob dydd ar foto-beic, wedi'i gwisgo rhag y gwynt mewn côt a chap lledr a 'goggles' mawr dros ei llygaid! Yn aml iawn byddai'r peiriant wedi nogio cyn amser mynd adre gan greu hwyl i'r gweision fferm, a safent wrth yr Efail gerllaw, a'r bechgyn wrth eu bodd yn cael eu hannog i wthio'r peiriant gan fustachu a rhedeg ar eu coesau meinion i geisio rhoi sbîd iddo! Yna byddai bloeddio gorfoleddus wrth weld Miss Huws ar ei march haearn yn diflannu i lawr Stryd Capel Coch.

Honglad o stafell hir oedd Standard III a dau ddrws yn agor iddi. Trwy'r drysau hyn yr oedd yn rhaid i bawb fynd allan i'r iard, i'r closeti, neu i gael joch o ddŵr o'r unig dap oedd y tu allan. Yr oedd tân glo yno wrth gwrs, fel ym mhob ystafell, ond hon oedd yr ystafell mwyaf drafftig a dim ond y rhai a eisteddai yn y rhes flaen a deimlai unrhyw wres. Weithiau byddai Miss Huws yn ein cael i sefyll a chwifio'n breichiau i fyny ac ar led i'r cadw'n gynnes. Un wers a gofiaf oedd gweld Miss Huws yn llenwi powlen pibell-glai wen â llwch glo a'i sodro rhwng barrau'r grât i lygad eiriad y tân a chyn hir fe ddeuai mwg gwyn allan o goesyn y bibell ac yna fe oleuid sbilsen a'i gosod yn y mwg nes cafwyd fflam — dyna fel y gwnaed y golau 'gas' a welem yn lampau'r strydoedd. Nid oedd nwy na thrydan wedi cyrraedd ein rhan ni o'r pentre yr adeg honno.

Un tro soniodd Miss Huws wrthym ei bod yn bosib i ni ymuno â math o glwb — tebyg i'r 'Bandofohope' yr aem iddo yn y Church House ganol wythnos — i blant dros Gymru i gyd. Os

deuem â swllt i'r ysgol fe gaem fathodyn i'w roi yn ein cotiau ac fe fyddem yn aelodau o Urdd Gobaith Cymru. Teimlais yn isel gan na allwn fynd adref i ofyn i Anti i sbario swllt yr un i'r tri ohonom. Smaliais fod yn ddi-hid ond yn ddistaw bach fe eiddigeddwn wrth y plant a wisgai'r bathodyn ac a ddeuai i'r ysgol mewn dillad coch a gwyrdd. Ond fe gefais i fathodyn. Daeth math o garafân i aros yn Llibant ac fe'n gwahoddwyd ni y plant i ddysgu canu ac yna caem fathodyn. Cofiaf y ddwy gân heddiw; er bod pob gair yn ddealladwy ar ei ben ei hun nid oeddwn yn deall eu hystyr, ond roedd yr alawon yn sionc ac ysgafn:

I am the door, I am the door.

*By me if anyone enters in,
He shall be saved, he shall be saved
He shall be saved.*

Everlasting life is free

Everlasting life is free

Simply by believing in the Word of God

Everlasting life is free.



**GWÊL Y
LLYN**

**Lake View
Hotel**

LLANBERIS

870422

**Prydau Arbennig
ar gyfer partïon**

Byddai perchnogion
a staff y gwesty yn
falch o'ch croesawu
ar gyfer dathliadau
o bob math.

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo
★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen
Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd
o'r wythnos at eich
gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am
ddanfon archeb i'ch
cartref yn ardal Llanrug

Royal Victoria Hotel

LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cydymdeimlad: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf i Mr a Mrs Elfed Parry, Glandŵr, yn eu profedigaeth lem o golli chwaer, sef Gaynor Owen, Llanrug; hefyd i Mr a Mrs Maldwyn Hughes, 2 Bryn Gro, o golli nith.

Estynnwn ein cydymdeimlad hefyd i'r Dr John Wase a'r plant, Ty'n Maes, yn eu profedigaeth lem o golli priod a mam yn frawychus o sydyn trwy ddamwain modur. **Undeb y Mamau:** Gweinyddwyd y Cymun Bendigaid gan y Parchg Philip Hughes yn Hafan Elan, Llanrug, ar nos Lun, 6 Mawrth. Ar ôl y gwasanaeth trafodwyd rhai materion gan Mrs M. Latham. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Mrs Taylor, Mrs Craven, Mrs O. Jones a Mrs D. Jones. Llongyfarchwyd Mrs Taylor ar enedigaeth ei wyres fach gyntaf. Yn gofalu am y lluniaeth roedd Mrs Latham a Mrs K. Jones a diolchwyd iddynt gan Mrs G. Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Taylor a Mrs Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs W. Jones a Mrs Marjorie Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, Ebrill 3.

Newyddion o'r Ysgol: Cawsom brynhawn hynod o ddifyr yng nghwmni Mr Gwilym Roberts o Gaernarfon yn sôn am ei daith i wlad Bosnia y llynedd. Dangosodd sleidiau diddorol iawn a dynnwyd yn ystod ei ymweliad. Bydd Mr Roberts yn

dychwelyd i Bosnia y mis nesaf — y tro hwn mewn ambiwlans fydd yn cario nwyddau meddygol i ysbyty yno. Cyflwynwyd casgliad sylweddol iawn o nwyddau iddo gan blant yr Ysgol. Diolch i chwi rieni a chyfeillion am gefnogi ymgyrch glodwiw Mr Roberts. Dymuwn bob bendith iddo ar ei daith unwaith eto.

Llongyfarchiadau i Mrs Catherine Jones, ein cynorthwywraig yn y gegin, ar ei llwyddiant yn y cwrs 'Hylendid yn y Gegin'.

Cynhaliwyd 'Noson o Hwyl' arbennig o lwyddiannus yn ddiweddar. Mrs Menna Williams, Llanrug, oedd arweinydd hwyliog y noson. Arddangoswyd gan Mrs Helen Jones, cymorth cyntaf; Mrs Bethanne Williams, dawn stepio; Mrs Jennifer Thomas, plethu gwallt; Mr Wavell Roberts, plethu selsig; a Mr Gwyndaf Hughes, sgiliau ffotograffii. Diolch i bawb gymerodd ran yn ceisio eu hefelychu. Diolch hefyd i bawb gyfrannodd at y rafflau a chefnogi'r noson ac i bwyllgor Rhieni ac Athrawon am drefnu'r gweithgareddau.

Fel rhan o'r gwaith thema, aeth dosbarth y babanod i arddangosfa hen bethau yn yr Oriel yn Llanberis ac yna aethant ar daith i mewn i'r mynydd i weld gwaith trydan Dinorwig. Ydy, mae pethau wedi newid!

I Lanystumdwy yr aeth yr Adran



Plant yr Ysgol Feithrin a'r oen bach.

lau ac yn ôl i'r gorffennol. Gwisgai pawb mewn dillad o gyfnod oes Fictoria. Treuliwyd diwrnod difyr yn ymweld â'r Amgueddfa. Cawsant wersi yn yr hen ystafell ddosbarth yno — lle roed y 'Wels Not' ar waith. Yna draw i fwthyn Highgate — cartref Lloyd George. Gwneud crempog yno a chyn dychwelyd adref bu'r plant yn 'clapio' am wyau. Bu Miss Iona Vaughan o Goleg

Menai gyda ni ar brofiad gwaith. Carem ddiolch iddi am ei gwaith yn nosbarth y babanod. Mae ei bryd ar fynd i nysio a gobeithio yn wir y caiff ei dymuniad. Pob hwyl Iona.

Enillydd Clwb yr Ysgol am fis Chwefror oedd Mr Ted Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo, gyda'r ail wobwr yn mynd i Mrs Marjorie Smith, Bro Rhyddallt, Llanrug.

BRYNREFAIL

!Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580!

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Marwolaeth: Gyda gofid y daeth y newydd trist am farwolaeth ddysymwth Mr John Orwig Jones, 2 Ffrwd Madog, ar Chwefror 22ain. Roedd yn gymeriad hynod gymeradwy yn yr ardal, yn llednais a pharchus ei ymarweddiad ac yn meddu ar ddewrder arbennig yn wyneb afiechyd am rai blynyddoedd. Roedd yn aelod ffyddlon o Eglwys M.C. Brynrefail a'r ffyddlondeb hwnnw yn un nodedig. Bydd bwch enfawr ar ei ôl yn nosbarth yr oedolion yn yr Ysgol Sul lle bu'n rhannu ei brofiadau a'i fyfyrddodau a mynegi ei ffydd gadarn. Bu'r gwasanaeth angladdol yng Nghapel M.C. Brynrefail dan arweiniad y Parchg D. John Pritchard, Llanberis, ac yn dilyn yn Amlosgfa Bangor. Talwyd teyrnged gan Mr Richard W. Evans, Ty'n Buarth. Cydymdeimlir yn ddwys â'r oll o'i chwiorydd, yn arbennig Mrs Jennie A. Roberts, y bu'n rhannu aelwyd â hi am flynyddoedd maith ac â'r holl neiaint a nithoedd yn eu plith Mrs Bethan Lambert a Mrs Eleri Nixon a oedd yn agos iawn ato.

Diolch: Dymuna teulu y diweddar John Orwig Jones, 2 Ffrwd Madog, ddatgan eu diolch am bob caredigrwydd a chydymdeimlad a ddangoswyd iddynt yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd ac ewythr annwyl. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau personol gan y teulu, ffrindiau a chymdogion sydd yn rhy niferus i'w hateb. Diolch hefyd am yr arian a dderbyniwyd sydd yn £450 i'w rhannu rhwng Eglwys M.C. Brynrefail a Meddygfa Llanberis. Diolch i'r ddwy chwaer, Eirianwen ac Euronwy am eu cymorth yn y cartref; i Richard W. Evans a Lowri P. Roberts Williams am eu teyrngedau ac am y gwasanaeth wrth yr organ. Diolch arbennig i L. J. Roberts am ei gludiant yn ôl a

blaen i'r ysbyty a'i help bob amser; i'r Parchg D. John Pritchard am ei wasanaeth ddydd yr angladd a hefyd Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor Jones am eu trefniant trylwyr.

Eglwys M.C. Brynrefail: Bydd yr oedfaon Sabothol fel a ganlyn yn ystod mis Ebrill:

2 Parchg Elwyn Edwards, Caernarfon (5.30).

9 Parchg R. Gwilym Hughes, Caernarfon (10).

16 Mr Tom Herbert, Penygroes (10).

23 Mr J. O. Roberts, Bethesda (5.30).

30 Parchg Alwyn Roberts, Tre-garth (10).

Cynhelir yr Ysgol SI ar Ebrill 2, 9, a 30 am 2 o'r gloch.

Nos lau, Ebrill 6, bydd cyfarfod cyntaf y tymor o Gymdeithas y Chwiorydd yn y Festri am 7 o'r gloch. Y wraig wadd am y noson fydd Mrs Margaret Cynfi Griffith, Deiniolen.

Nos Sul, Ebrill 23, trefnir rihysal ar gyfer Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Padarn am 6.45 o'r gloch yng Nghapel M.C. Brynrefail. Yr arweinydd fydd Mrs Lowri P. Roberts Williams a'r organydd Mr Gareth Jones.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen leol yn y Festri, nos Lun, Mawrth 20. Roedd y noson dan ofal y llywydd, Mrs Pat Jones yn paratoi a choginio pryd tri chwr a chafodd pawb oedd yn bresennol flasau o'r wledd. Diolchwyd iddi hi ac i Mrs Jennie Hughes, Mrs Jennie Roberts, Mrs Caol Houston a Mrs Eleanor Williams a baratodd y baned gan Mrs Eirlys Williams. Rhoddwyd gwobr y mis gan Mrs Gwenllian Edwards ac fe'i henillwyd gan Mrs Pat Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 10, wythnso ynghynt nag arfer, pryd y disgwylir Mr Derec Owen o Lanfairpwll i roi sgwrs ar 'Whilmentan'.



Plant yr Ysgol yn paratoi'r nwyddau ar gyfer Mr Gwilym Roberts.

GERAINT OWEN

Gosodwr carpedi a phob math o lorïau

Cil-y-Mynydd WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 650552



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall.

Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b.

Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Diolch: Dymuna Jenkin Morgan Griffiths, Llwyn Eithin, ddiolch yn ddiffuant iawn am yr holl gardiau, galwadau ffôn, rhoddion, ymweliadau a llythyrau a dderbyniodd gan gyfeillion a chydabod yn ystod y ddau gyfnod y bu yn Ysbyty Gwynedd ac wedi iddo ddod adref. Diolch yn fawr i bawb.

Yr Urdd: Daeth llwyddiant eto i aelodau'r gangen leol ar derfyn dwy Eisteddfod Cylch yn ddiweddar. Daeth parti llefaru o dan 15 oed yn gyntaf, ac am y bedwaredd flwyddyn yn olynol enillwyd y darian i adrannau pentref gan gangen Bethel, ond yn ei rhannu eleni gyda adran bentref Waunfawr.

Yn yr Eisteddfod o dan 12 oed daeth tair cystadleuaeth i'r brig, sef y grŵp dawnsio creadigol; Gwenno Thomas, canu; a Gwenan Heledd Jones, ffliwt. Bydd rhain yn cynrychioli'r gangen yn yr Eisteddfod Sir ddiwedd y mis. Lleolwyd côr yr adran yn ail a Lois Hughes yn drydydd am ganu a llefaru o dan 10 oed. Trydydd hefyd oedd dau grŵp dawnsio gwerin a grŵp yr ymgom. Yn Eisteddfod Sir yr Aelwydydd daeth y parti llefaru 14-25 oed yn gyntaf, ac fe fyddant yn mynd ymlaen i'r Genedlaethol ym Mro'r Preseli ym mis Mehefin. Ail oedd hanes y parti canu dan 19 oed, ac Aelwyd Bethel yn drydydd, ar ddiwedd y dydd.

Aelwyd yr Urdd: Unwaith eto mae

aelodau'r Aelwyd wedi bod yn llwyddiannus. Y tro hwn cymerwyd rhan gan bedwar aelod mewn cystadleuaeth Cwis Urdd 2000, gan gyrraedd y rownd derfynol sydd i'w chynnal yn Aberystwyth y mis nesaf. Aelodau'r tîm yw Bethan Williams, Llinos Mair Williams, Anest Williams a Meilyr Emrys. Mae pump tîm yn mynd ymlaen i'r rownd derfynol, a thri ohonynt o Sir Eryri, sef Bethel, Caernarfon a Llandwrog. **Clwb 200 y Neuadd:** Enillwyd mis Chwefror oedd £20: Nia Griffiths, Glan Dŵr (197); £10: Richard Parry, 4 Rhos-lan (34); £5 yr un i Gwyneth Price, Llys Gwynt (94); Gwyneth Jones, Y Fachell (72); Rachel E. Hughes, Coed Bolyn (122); Collwyn Williams, Elan (101); Mabel Jones, Eithinog (111); Jean Williams, Pen Lôn (2); Bessie Ellis, 15 Cremllyn (24); a Goronwy Jones, Glan Gors (8). Diolch i bawb am eu cefnogaeth. **Yr Ysgol:** Pnawn dydd Mawrth, 1 Mawrth, daeth Clwb Bro Bethel i'r ysgol i ddatlu Gŵyl Ddewi efo'r plant. I ddechrau cafwyd eitemau o ganu, adrodd ac actio gan y dosbarthiadau yn eu tro. Wedyn cafwyd te blasus wedi ei baratoi a'i weini gan blant blwyddyn 6. Diolchwyd i'r plant gan y Parch Gwynfor Williams.

Nos Lun, 20 Mawrth, trefnwyd noson addysgiadol gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon gyda Mrs Margaret Robertson, yr ymgynghorydd gwyddoniaeth. Er

mai siomedig iawn oedd ymateb y rhieni i'r noson cafodd y rhai oedd yn bresennol gyfle i rannu rhai o'r profiadau gwyddonol a gaiff eu plant yn yr ysgol.

Merched y Wawr: Dathlwyd Gŵyl Ddewi y gangen yng Ngwesty Victoria, Llanberis, ar nos Fercher, Mawrth 8. Y gŵr gwadd oedd Mr Geraint Lloyd Owen, Y Bontnewydd, a chafwyd amser pleserus iawn yn ei gwmni yn trafod barddoniaeth. Diolchwyd iddo gan Jên Roberts. Enillwyd y raffl gan Glenys Griffiths a Rita Williams.

Bu nifer o'r aelodau yn chwarae

bowlio deg yn Llandudno. Trefnwyd y noson gan ranbarth Arfon o'r pwyllgor chwaraeon. Nid oedd bowlwyr blaengar ymysg chwarae-wyr Bethel, er fod ambell un yn well na'r lleill. Gwell peidio enwi — er fod ambell un angen dwy law i godi'r bêll! Diolch i Jên a'r pwyllgor am drefnu noson mor hwyliog.

Y Gymdeithas: Nos Fawrth, 14 Mawrth, daeth tymor y gaeaf y Gymdeithas i ben gyda swper Gŵyl Ddewi yn Nhŷ Golchi. Cafwyd noson ddiffr iawn yng nghwmni y gŵr gwadd, Mr T. Gwynn Jones.

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Pen-blwydd Hapus: Llongyfarch-iadau mawr i Miss Florrie Davies, 3 Bro Elidir, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 80 yn diweddar. Gobeithio i chwi gael diwrnod wrth eich bodd.

Byd-eang y Chwirydd: Ar y 3ydd o Fawrth cyhaliwyd cyfarfod Gweddi Byd-eang y Chwirydd yn y Ganolfan. Y gyfeillyddes oedd Mrs Dilys Williams a chymerwyd rhan gan nifer o aelodau yr enwadau lleol. Ar ddiwedd y gwasanaeth gwnaed casgliad o £14.

Bingo Teulu: Ar nos Fercher, Ebrill 5ed, am 7 yn y Ganolfan, bwriedir cynnal Bingo Teulu. Mae'r noson yma yn ddilyniant i'r noson lwyddiannus honno a gynhaliwyd ar ddechrau mis Chwefror. Fe ddylai fod yn noson llawn hwyl ar gyfer y teulu cyfan. Bydd y pris mynediad yn 20c i bawb ac fe godir 50c am lyfr.

Cofiwch ddod a'ch beiro gyda chwi. Bydd gwobrau ariannol i'r enillwyr. Beth am ddod draw am dipyn o hwyl.

Diolchiadau: Dymuna Florrie Davies, 3 Bro Elidir, ddiolch o galon i'w chymdogion, perthnasau a'i ffrindiau am y blodau a'r anrhegion hardd a dderbyniodd ar ddatlu ei phen-blwydd yn 80 yn ddiweddar. Diolch yn fawr iawn i bawb.

Etholiadau Lleol: Cynhelir etholiadau y Cynghorau Unedig newydd ar ddydd Iau, Mai 4ydd. Mae Glyn Tomos wedi rhoi ei enw ymlaen fel ymgeisydd ar gyfer gwasanaethu fel Cynghorydd ar Gyngor Cymuned Llanddeiniolen dros ardal Dinorwig.

Pasg Da: A ninnau ar drothwy Gŵyl yr Atgyfodiad, dymunwn Pasg Da i bob un ohonoch.



Aelodau tîm cwis yr Aelwyd.

GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
 Petrol ● Diesel ● Nwy Calor ● Glo
 Cylchgronnau ● Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd ● Wyau
 Nwyddau Groser ● Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol



SIOP GREFFATU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

**Basgedi Blodau Sych ★ Siwtnei
 Jams ★ Briwgig ★ Siampw,
 Clustogau ★ Ewyn Baddon
 Olewon Aromatherapi**

Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.



**J.M.
 JONES
 A'I FEIBION**

**GWAITH
 CERRIG
 BEDDAU**

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith
 llaw traddodiadol
 Cerrig o bob
 math ar gael

**Ffôn:
 C'fon 672898 (dydd)
 C'fon 676285 (nos)**

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Canolfan Gymdeithasol: Cynhaliwyd Noson Goffi yn neuadd yr Ysgol Gynradd ar nos Iau, Mawrth 16, i godi arian tuag at Gronfa'r Ganolfan. Bu'n noson hynod lwyddiannus, a chasglwyd swm o bron i £300. Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd tuag at lwyddiant y noson. Enillwyd y raffl oedd Carrie Owen (bocs bisgedi) Morfudd Roberts (bocs bwyd), Ceri Williams (bocs nwyddau), Mrs Pugh (siocled), Alwena Jones (siocled), Janet Scase (bisgedi) a Gwenlli Pugh (toilettries).

Yn anffodus, oherwydd amgylchiadau, ni allai swyddog o'r Loteri Genedlaethol gyfarfod â chynrychiolwyr y gwahanol fudiadau yn ystod mis Mawrth. Bydd dyddiad arall yn cael ei drefnu, a rhoir gwybod i bawb ymlaen llaw o'r trefniadau.

Fel rhan o ymdrech Capel y Rhos tuag at Gronfa'r Ganolfan, cynhelir **Te Cymreig** yn y Ffestri rhwng dau a phedwar o'r gloch pnaen **dydd Mercher, Ebrill 19eg**. Dowch draw am banded a sgwrs. Mae cyfeillion yn barod i'ch cludo os bydd angen. Cysylltwch â swyddogion y Capel. Y pris mynediad fydd £1.

Bydd cyfarfod nesaf y Pwyllgor Codi Arian yn cyfarfod yn **Y Sefydliad Coffa am 7.30, nos Fercher, 12 Ebrill**. Unwaith eto erfynnir ar i bawb sydd â diddordeb un ai i fynychu'r cyfarfod neu gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug (01286) 673515.

Gwaeledd: Dymuniadau gorau i Mr a Mrs John Griffith Jones, 12 Hafan Elan, wedi i'r ddau fod yn wael yn yr ysbyty. Bu Mr Jones yn Ysbyty Gwynedd am saith wythnos ac yn awr adref yng ngofal ei wraig. Dymunwn wellhad llwyr a buan i'r ddau.

Dymunwn wellad buan hefyd i Mrs Williams, Penterfyn, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Llongyfarchiadau i Mrs Sally Thomas, Ffordd yr Orsaf, ar gyrraedd ei 90 oed ar yr 8fed o Fawrth; a Mrs Jones Evans, Hafan Elan, ar ddathlu ei phen-blwydd hithau yn 90 oed ar yr 21ain o Fawrth. Beth yw'r gyfrinach i edrych mor dda?

Cydydmeimlwn â Mr Merfyn Owen,

Lliwedd, Ffordd Glanmoelyn, Linda a Dafydd, yn eu profedigaeth fawr o golli Gaynor mor sydyn ar ddechrau'r mis. Bu Gaynor yn wael am flynyddoedd ond roedd bob amser gyda gwên a diddordeb mawr ym mhobeth yn y pentref. Bydd colled fawr i'r teulu i gyd ar ei hôl.

Ymddiheuriad: Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco fe longyfarchwyd Mrs Myfanwy Jones, 22 Hafan Elan, Llanrug, ar ddathlu ei phen-blwydd yn 85 oed — ond ymddiheurwn am dynnu deng mlynedd oddi ar ei hoedran gan mai 95 oed yw Mrs Jones.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, 13 Mawrth, aeth nifer o aelodau i ddathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Newborough, Y Bontnewydd. Yr oedd pawb wedi mwynhau'r lluniaeth a diolchir i Mary Roberts am wneud y trefniadau.

Dosbarthwyd tocynnau raffl Rhanbarth Arfon a gofynnir yn garedig am i chwi anfon y bonion a'r arian i Mary Roberts erbyn mis Mai.

Gwnaed elw o £250 yng nghaffi'r Eisteddfod yr Urdd yn Ysgol Brynrefail. Diolchir i bawb am y cyfraniadau ac i bawb fu'n helpu ar y diwrnod.

Ar 4 Ebrill bydd y gangen yn ymweld â Siop Cae Coch, Llanberis, rhwng 7.15 a 7.30. Ceir arddangosfa ynghyd â phaned a theisen gri. Cofiwch mai'r dydd Mawrth cyntaf fydd hwn ac nid yr ail ddydd Mawrth arferol.

Deallir fod nifer o'r aelodau wedi bod yn wael ac anfonwn ein cofion annwylaf atoch i gyd.

Ysgol Gynradd: Cynhaliwyd Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail a bu cystadlu brwd. Dyma rai o'r canlyniadau — Côr yn drydydd; Parti Deulais yn drydydd; Parti Cerdd Dant yn ail; Parti Unsain yn gyntaf; Sioned Wyn Jones yn drydydd ar yr Unawd Alaw Werin ac ar yr Unawd 10-12 oed. Llongyfarchiadau hefyd i'r partïon dawnsio gwerin a gafodd lwyddiant yn Eisteddfod Dawns yr Urdd. Daeth y rhai dan 10 yn gyntaf ac ail; ac o dan 12 yn ail.

Bu blwyddyn 1 a 2 ar ymweliad ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy. Profwyd blas ar fywyd ysgol oes Fictoria, a chafodd y plant gyfle hefyd i wneud crempog.



Yn ogystal cafwyd gweithdy i wneud 'clapiau' o bren, fel yn yr hen amser i ddathlu'r Pasg.

Daeth dau gynrychiolydd o bapurau'r Herald, Caernarfon, sef y gohebydd Tudur Huws Jones a'r tynnwr lluniau Arwyn Roberts at blwyddyn 5 a 6 i egluro'u gwaith.

Daeth Nys Betty Parry i ddisgrifio i blwyddyn 5 a 6 sut mae'r glust a'r clyw yn gweithio, a dangos y gwahanol arbrofion safonol ar gyfer y llygad a'r glust.

Bu John Huw Huws yn ymweld â blwyddyn 1 a 2 i sôn am ei blentyndod ef yn yr ysgol yn Rhostryfan. Mwynhaodd y plant y sgwrs. Diolchwyd iddo gan Sofie.

Enillwyd Clwb 100 mis Mawrth oedd — £30: Rhodri Williams; £15: Gareth Eifion Jones; £10: Mari Williams; £5: Sharon Blanchard; £4: John Owen.

Diolchiadau

Dymuna Mr a Mrs John Griffith Jones, 12 Hafan Elan, ddiolch o galon i bawb am eu caredigrwydd tuag atynt yn ystod y cyfnod y bu'r ddau yn yr ysbyty ac ar ôl iddynt ddod adref.

Dymuna Mrs Bet Jones, Lyndale, ddiolch i bawb a gefnogodd y Noson Goffi a gynhaliwyd yn Hafan Elan yn ddiweddar. Diolch i'r rhai a roddodd help llaw gyda'r coffi, stondinau a gwerthu raffl. Gwnaed elw o £168 ar gyfer prynu llestri i Fenter Fach-wen.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

W.J. GRIFFITH

**PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG**

**Pant Tirion, Llanrug
Ffôn: Caernarfon 673248**

**Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi**



**Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors**

**Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr**

Bistro
LLANBERIS
Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am **Fwffe Enwog Nerys** (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion. **Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis**

**E. W. Pritchard
CENTRAL GARAGE
Llanberis**

Ffôn: 870202 a 870272

**TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI**

GWŶR Y PAMPA

gan Y Gwalch

Daeth Gaucho De America i fodolaeth pan ddechreuwyd meddianu'r tir oddiar yr Indiaid brodorol yn yr Arianin ac Uruguay, (enw yn golygu, Afon yr Adar). Treiddiodd minteioedd o anturiaethwyr o borthladdoedd yr arfordir Dwyreiniol i'r fewnwlad.

Casgliad o ddihyrod oedd y rhain am y rhan fwyaf, wedi dianc o garchar neu oddiar y llongau, yn gymysg â rhai caethweision. Yn y cyflwr hwnnw doedd ganddynt fawr i'w golli drwy fentro eu ffawd yn erbyn ffyrnygrwydd yr Indiaid a'r tirwedd gwyllt o'u cwmipas.

Roeddent fodd bynnag yn wydn a dyfeisgar, a buan yr oeddent wedi manteisio ar gyfle i oroesi drwy ddefnyddio'r adnoddau naturiol a oedd ar gael yn ffurf y ceffylau a'r gwartheg gwylltion a oeddent yn britho'r peithiau mesul y miloedd. Roedd rhain yn rhoddi iddynt gig a chrwyn a chyrn, a moddion i symud o gwmpas y wlad. O ganlyniad i orfodaeth, daeth y dynion yma yn feistri ar drin anifeiliaid, ac oddiwrthynt yr oeddent yn cael y rhan fwyaf o'u hanghenion; bwyd a dillad, esgidiau a nwyddau lledr ar gyfer eu ceffylau, a datblygasant yn farchogion byd enwog fel y Cossacks.

Eu prif arf ar gyfer byw oedd y gyllell hir a garient yn gyson mewn gwregys ar eu cefnau. Roedd hon yn ddefnyddiol i ladd a blingo ac i fwyta, a phan oedd angen — i ymladd.

Ymhen amser bu iddynt baru gyda merched yr Indiaid gan ddatblygu cymunedau o waed newydd anibynol. Dechreuasant wedyn ysbeilio yn finteioedd, ac yr oedd eu harswyd ar ardaloedd cyfain. Mor nerthol y daethant o'r diwedd, nes gallu ffurfio cangen o fyddin a fu'n gynorthwy i enill anibyniaeth Uruguay oddiar lywodraeth Spaeneg. Daeth y Gaucho yn y diwedd i gael ei arddel fel delw genedlaethol yn arwyddocau rhinweddau o ddewrder a rhyddid, ac y mae yn dal i gynnal y ddelwedd honno yn yr Arianin, er fod rhan helaeth o'i ryddid bellach wedi ei lesteirio, gan fod y paith wedi ei gau mewn nifer o leoedd i ffurfio 'estancias' enfawr o filoedd o aceri, â'i brif swydd yn awr yw gwasanaethu fel gwas cyflog ar un o'r sefydliadau hyn.

Ar droad y ganrif fodd bynnag,



Ellis Williams

pan aeth Ffewythr Ellis Williams o'r Gors, Llanddeiniolen, i drigo yn eu mysg, doedd eu dull o fyw ddim wedi newid llawer ers y dyddiau cynnar.

Ychydig o'i hanes yn ystod y cyfnod yma sydd ar gael, gan iddo gael ei ladd cyn cael cyfle i ail gyfarfod â'm tad gan yr hwn y cefais ddrabiau o wybodaeth a ddaeth mewn llythyrau, a chan rhyw ŵr, yn wreiddiol o'r Rhiwlas a ddeuai i ymweld â ni pan oedd yn dod trosodd o Batagonia, ond dim hanner digon i ddiwallu fy chwilfrydeedd i yr adeg honno am y dyn amheuthun yma.

Bum yn dyfalu droeon sut y cafodd fynediad i'r gymdeithas ddewisol ac eiddigeddus yma mor rhwydd, ond erbyn taflu golwg o welediad aeddfetach; roedd yn fwy o achos tebyg at ei debyg, gan mai ffoadur rhag cyfraith oedd yntau; wedi torri deddf gwlad, ac yn arbennig deddfau stad y Faenol ynglŷn â herwhela, a oeddent mor llym nes digartrefu pobl o'u ffermydd am y trosedd yma.

Wrth gwrw fuasai ffordd y Gaucho o fyw ddim mor ddieithr i Ellis. Roedd o a'm tad wedi eu meithrin ym mywyd garw'r corsydd a'r caeau

ar ddiwedd yr hen ganrif, pan oedd y teulu o chwech; y rheini a'r hogiau a'r ddwy chwaer yn hunan gynhaliol. Roedd yr hogiau wedi arfer trin ceffylau a'u dofi a dal merlod mynydd, ac yn gyfarwydd â lladd moch a gwartheg a'u blingo, marchogaeth a thrin gynnu; yn ymladdwyr a herhweliwyr y bywyd gwyllt o'u cwmipas oedd yn amrywio o gwn dŵr i 'hedyddod — gweithgaredd a fu yn foddion i Ellis gael ei anfon o'r wlad rhag i'r cwbl gael eu troi ar y clwt.

Ei arch-elyn yn ôl yr hanes oedd y Sgotyn, Ross, cipar Caer Mynydd a oedd a'i gyllell yn gyson yn y ddau lanc, ac mae'n siwr fod ei waith wedi ysgafnhau ar ymadawiad Ellis, pan oedd hi'n drosedd hyd yn oed i fynd i'r coedlannau.

Aeth i Batagonia i gychwyn, a chredaf iddo gael ei garcharu yn Buenos Aires ar ei daith oherwydd rhyw amryfysedd ynglŷn â mewnfudo. Rywf o dan yr argraff hefyd na chynnyddodd ei boblogrwydd yny Wladfa pan ddeallwyd ei fwriad. Doedd y trigolion ddylw'n ddim yn or-hoff i rai o'u mysg fynd i ymuno â'r Gauchos. Roeddent hefyd yn gwrthwynebu i'w gwŷr ieuanc gael eu gorfodi i ymuno â byddin yr Arianin. Doedd Ellis, fel y datblygodd pethau, ddim yn hoffi'r syniad chwaith.

Nid oedd yn greadur a gymrai yn hawdd at ei gaethiwo mewn un man yn hir. Crwydrodd lawer hyd y wlad ar ei farch gyda chydymaith — 'domador' yn ôl yr enw — dofwr ceffylau, a oedd yn symudol yn ôl gofynnion ei swydd.

Clywais ddarnau digyswllt am eu bywyd yr adeg honno: fel y caniateid iddynt ar deithiau maith i ladd anifail i'w cynnal, heb ganiatad ei bercheno: Fel yr oeddent yn yfed te yr 'ilex mate' i hyrwyddo treiliad yr holl gig yr oeddent yn ei fwyta, diod a fabwysiadwyd oddiwrth yr Indiaid, ac fel yr oedd gwartheg yn ystod tymor blodau'r camomeil yn dioddef oddiwrth lygaid tost a pheswch oherwydd paill y planhigyn hwnnw.

Mae sôn fod Ellis yn y diwedd wedi ymserchu yn rhyw ferch o'r enw Selena, amgylchiad a wnaeth iddo ef a'r 'domador' wahanu, gan iddo aros am gyfnod ar rhyw 'estancia' — hynny yw — nes y daeth yno rhyw noson dri dieithryn nad oedd unrhyw bwrpas amlwg i'w hymweliad, ond yn ffodus i Ellis, cafodd ei roi ar wyladwriaeth mewn pryd, mai dihyrod oeddent yn gyflogedig gan y fyddin i hel gwŷr ieuanc am 'bounty'.

Ymadawodd Ellis yn y nos, ac ar ôl teithio am ddiwrnod neu ddau, sylweddolodd ei fod yn cael ei ddilyn, ac rwy'n credu iddo fynd nes

bron gyrraedd troed-frynau'r Andes, lle y daeth ar draws rhyw gaban gwag. Llechodd yn y fan honno tros nos. Yn y plygain ymadawodd i gyfeiriad croes ar ôl cynneu tân yn y caban a rhoi dail gwyrddion arno i greu mwg er rhoi'r argraff ei fod yn dal yno, pan ddeuai'r wawr.

Ar ôl dianc o grafangau'r bobl yma, dychwelodd ymhen y rhawg i'r gymuned a'i derbyniodd yn y Wladfa, i ganfod y syndod fod rhai o'r bechgyn a adnabu eisoes wedi eu galw i fyddin yr Arianin, a phenderfynodd osgoi eu tynged drwy adael y wlad. Aeth ar long i Awstralia gyda llanc arall o'r un perswad, a sefydlodd ffarm ddefaid lewyrchus yno. Nid nes y rhoddwyd trefn ar ei eiddo wedi iddo gael ei ladd, y dadlenwyd y ffaith ei fod wedi ceisio trefnu i Selena ymuno ag ef yn New South Wales. Ni wireddwyd ei ddymuniad fodd bynnag; doedd yna yr un eglurhad paham, gan i ymdrechion gael eu gwneud gan ei deulu i ddod o hyd i'r ferch, ond yn ofer.

Ond mae'n rhaid nad oedd pall ar ei ysbryd anturus. Yn ystod y Rhyfel Mawr daeth trosodd i Ffrainc gyda'r Australian Imperial Force, mewn pryd i gymryd rhan ym mrwydr Hangard Woods pan alwyd ar yr Awstraliaid ar fyr rybudd i ddal y lein ger Villers Brettoneau pan oedd y catrodau torredig eraill yn ffoi y ffordd arall.

Doedd gan y Jeri yr adeg honno fawr o chwaeth i wynebu Awstraliaid, gan eu bod yn enwog yn Ffrainc fel ymladdwyr gyda bidogau, a chyda'r arfau rheiny y troesant y llanw yn Hangard Woods, ond lladdwyd Ellis. Yn ôl yr adroddiad roedd ef a dau arall yn aelodau o batrol a aeth ar ei ben i 'snipers'. Mae'r tri wedi eu claddu mewn mynwent fechan iawn yng nghanol gwylltineb gwlad y Somme ymysg Ffrancwyr a arhosodd gyda hwy i wynebu'r gelyn.

Mae yma amlen gref swyddogol a ddaeth o'r Weinyddiaeth Ryfel, yn cynnwys ei brin eiddo: waled fechan, siswrn plyg a chrib, a'r 'tag' a oedd am ei wddf, rhyw arwydd trist o'r gwerth a roddir ar fywydau dynion fel hyn mewn rhyfeloedd.

Roedd fy nhad unwaith ddylw'n wedi coleddu'r syniad o gael ei gorff o'r Somme a'i gludo i gladdfa fy hen bobl yn Llanddeiniolen. Ond ail-feddyliodd wrth sylweddoli na fuasai symudiad felly ond yn ail agor y loes i'r chwiorydd. Felly, ar ôl ei anturiaethau, yno y mae Ellis ar gwr coedwig Hengard, lle y buom ninnau un Hydref yn talu ein dyled a'n parch. Fel y canodd Dewi Orwig iddo:

*Mewn llanerch bell mae'n llonydd,
Yno ein serch ninnau sydd.*

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **CAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



Car neu Fan
Petrol neu Diesel
Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eiddo
ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



GWASANAETH TACSI
HURIO BWS MINI
CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Y Gymdeithas Undebol: Bydd swper y Gymdeithas yn cael ei gynnal yn Nhafarn y Rhos, Rhostrehwfa, Môn, nos Iau, Ebrill 6ed. Dylai aelodau'r Gymdeithas gysylltu â Mr Tydfil Jones os nad ydynt wedi archebu eu lle.

Cyngor Eglwys Deiniolen: Y Parchg Ddr Geraint Tudur, Bangor, oedd yn arwain cyfarfod y Cyngor Eglwys yn Ebeneser, nos Lun, Mawrth 13. Cafwyd sgwrs ganddo ar rai o'r cwtiau crefyddol newydd y clywir sôn amdanynt y dyddiau hyn. Roedd y sgwrs yn dangos peryglon y clytiau ac yn cadarnhau mai yn yr Efengyl Gristnogol y mae'r bywyd i'w gael. Anfonwyd cofion at rai o ffyddloniaid y Cyngor Eglwys oedd yn wael, yn cynnwys y Parchg Olaf Davies, Eileen Williams a Bobby Williams. Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Eglwys yng Nghefnywaun, nos Iau Cablyd, nos Iau, Ebrill 13 am 7 o'r gloch.

Ebeneser a Chefnyswaun: Cynhelir Cyfarfod Gweddi yr Ofalaeth yng Nghefnywaun, nos Fercher, Ebrill 5, am 7 o'r gloch. Estynnir croeso cynnes i aelodau'r eglwys ac unrhyw un arall a garai ymuno â ni yn y cyfarfod. Mae plant yr Ysgol Sul yn brysyr yn paratoi ar gyfer y ddwy gymanfa erbyn hyn, ac aelodau'r ddwy eglwys yn edrych ymlaen i groesawu'r ddwy gymanfa i Ddeiniolen y gwanwyn hwn. Cynhelir Cymanfa Annibynwyr y cylch yn Ebeneser, brynhawn a nos Sul, Ebrill 9, a Chymanfa Presbyteriaid y cylch yng Nghefnywaun, brynhawn a nos Sul, Mai 7.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd dau gyfarfod dan lywyddiaeth y Parchg Tegid Roberts. Nos Lun, 6 Chwefror, cafwyd noson ddiddorol yng nghwmni Miss Jean Hoeller a'i ffrind Margaret. Dangoswyd sleidiau o'u gwyliau yng Nghanaada. Diolchwyd iddynt gan y Parchg Tegid Roberts. Nos Lun, 5 Mawrth, y wraig wadd oedd Mrs Menna Williams o Lanrug. Cafwyd noson ddifyr iawn pan siaradodd am ei gwaith fel Cofrestrydd Arolygol genedigaethau, priodasau a marwolaethau dosbarth Caernarfon. Diolchwyd iddi gan y Parchg Tegid Roberts. Rhoddwyd y

te a'r raffl yn y ddau gyfarfod gan Mrs Eileen Hughes a Mrs Anne Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Lun, 3 Ebrill, yng ngofal y Parchg Tegid Roberts.

Dymuniadau da: Dyna a ddymunwn i Sandra sydd newydd sefydlu busnes trin gwallt yn yr hen siop bapurau newydd yng nghanol y pentref.

Gwella: Da gennym glywed fod Mrs Nancy Thomas, 5 Y Bwthyn, yn gwella ar ôl derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymuna Nancy ddiolch i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llw cardiau a dderbyniodd. Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsus Ward Dulas, Ysbyty Gwynedd, ac i'r meddygon a'r nyrsus lleol. Diolch yn fawr.

Profedigaeth: Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Chwefror, bu farw Mrs Kate Ellen Davies, Cartref Plas y Bryn, Bontnewydd, gynt o 4 Rhes y Glyn, Deiniolen, yn 75 mlwydd oed. Roedd yn weddw i'r diweddar Mr Griffith John Davies ac yn fam annwyl i Meirion, Richard a'r ddiweddar Katie. Treuliodd ei phlentyndod yng Ngherrig y Nyth, ac ar ôl priodi bu'n aelod o Gapel Disgwylfa hyd nes iddo gau yn 1991. Yn ystod y rhyfel bu'n danfon y llefrith o amgylch yr ardal a bu hefyd yn gweithio yng ngwasanaeth

cinio Ysgol Gwaun Gynfi.

Bu'r angladd ddydd Iau, 2 Mawrth, yng Nghapel Ebeneser a Mynwent Macpela. Gwasanaethwyd gan y Parchg John Pritchard, Llanberis, a'r Parchg Emlyn Richards, Cemaes, Môn. Yr organydd oedd Mr John Jones.

Dymuna'r meibion a'u teuluoedd ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth. Bydd y rhoddion yn mynd tuag at Gronfa Haematoleg Gwynedd.

Diolchiadau

Dymuna Mrs Sass Williams, 25 Rhydfadog, ddiolch yn fawr am yr anrhegion, cardiau, galwadau ffôn a'r blodau hyfryd a dderbyniodd i ddymuno'n dda iddi ar gyrraedd ei 90 oed. Cafodd ddiwrnod hapus yng nghwmni ei theulu a'i ffrindiau. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs Beryl Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch yn ddiffuant i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, am y llw cardiau ac anrhegion, a phob arwydd o garedigrwyd ar achlysur dathlu ei phen-blwydd yn 80 oed ar 24 Chwefror.

Dymuna teulu y diweddar Fred Watkin, o Edwardsville, ger Treharris, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chyfeillion o Ddeiniolen am y llw cardiau a'r cydymdeimlad a amlygwyd iddynt fel teulu yn eu profedigaeth. Bu farw Fred yn fuan iawn wedi ei ymddangosiad ar y rhaglen deledu 'Y Byd ar Bedwar'.



Yn y llun gwelir Steffanie, Brehinhes Carnifal Deiniolen 1995 a Donna Marie Jones ei morwyn ar ôl eu dewis mewn bore coffi yn yr Ysgol gan Brehinhes Julie a'r cwrt. Bydd y Carnifal eleni ar y 1af o Orffennaf.

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

Ffenestri

CELTIC

Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

**BUSNES TEULUOL • CREFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS**

**NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!**

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



**(01286) 671181
(0831) 326160**



Siop Trin Gwallt

SANDRA

Stryd Fawr

DEINIOLEN

Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensiynwyr

asiantaeth



budd-daliadau

Ymddeol yn gynnar

Cwestiwn: Rwyf yn 56 mlwydd oed a newydd ymddeol gyda phensiwn o £60 yr wythnos oddi wrth gyflogwr. Nid oes gennyf unrhyw ddibynnyddion. Pa fudd-daliadau allaf eu cael?

Ateb: Rhaid i chi gofrestru gyda'r Gwasanaeth Cyflogi a gwneud cais am Fudd-dâl Diweithdra. Budd-dâl cyfrannol yw hwn yn seiliedig ar y cyfraniadau Yswiriant Gwladol yr ydych wedi eu talu yn ddiweddar. Os yw person yn 55 oed neu'n hŷn ac yn cael pensiwn galwedigaethol neu bersonol o fwy na £35 yr wythnos, caiff Budd-dâl Diweithdra ei ostwng. Am bob 10c dros £35 mae'ch pensiwn galwedigaethol ac/neu bersonol yn ei roi i chi, bydd eich Budd-dâl Diweithdra yn gostwng 10c. Gan eich bod yn cael pensiwn o £60 yr wythnos, bydd unrhyw Fudd-dâl Diweithdra yn cael ei ostwng o £45.45 i £20.45 yr wythnos.

Cwestiwn: Sut caiff fy mudd-daliadau eu heffeithio os byddaf yn cymryd ymddeoliad gwirfoddol?

Ateb: Bydd unrhyw berson sy'n rhoi'r gorau i'w swydd heb achos cyfiawn yn cael ei wahardd rhag derbyn Budd-dâl Diweithdra hyd at 26 wythnos. Yn ystod y cyfnod hwn bydd maint y Cymorthdal Incwm sy'n daladwy yn cael ei ostwng hefyd.

Cwestiwn: Gŵr 62 mlwydd oed wyf fi sydd newydd ymddeol gyda phensiwn o £150 yr wythnos oddi wrth gyflogwr. Rwyf yn deall na allaf gael Budd-dâl Diweithdra, ond beth allaf ei wneud i ddiogelu fy hawl i bensiwn y wladwriaeth?

Ateb: Gan eich bod dros 60 mlwydd oed, cewch gredydau cyfraniadau Yswiriant Gwladol yn awtomatig hyd nes y byddwch yn 65 mlwydd oed. Bydd hwn yn diogelu'ch hawl i bensiwn y wladwriaeth. Yr unig amod i gael y credydau cyfraniadau hyn yw eich bod yn bresennol ym Mhrydain am o leiaf 183 o ddiwrnodau ym mhob blwyddyn treth.

Cysylltwch â'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol am ragor o wybodaeth ynghylch budd-daliadau y gallech eu cael os byddwch yn ymddeol yn gynnar. Mae'r cyfeiriad a'r rhif ffôn yn y llyfr ffôn o dan 'Social Security' neu 'Benefits Agency'. Gallwch hefyd ffonio Llinell Ddi-dâl Nawdd Cymdeithasol am wybodaeth gyffredinol. Y rhif yw 0800 289 011.

Mae'r erthygl hon yn rhoi cyngor cyffredinol yn unig. Ni ddylid ei thrin fel datganiad cyflawn ac awdurdodol o'r gyfraith. Cysylltwch â'ch Swyddfa Nawdd Cymdeithasol leol i drafod eich amgylchiadau arbennig chi.

ADFER HEN GREFFT

Yn yr hen oesoedd roed ein cyndadau yn defnyddio ffyn nid yn unig i'w hamddiffyn eu hunain ond hefyd fel offerynnau gwaith. Esiampl o'r hyn sydd wedi parhau hyd heddiw yw y Bagal a'r Pastwn. Heddiw, gyda'r cynydd mewn oriau hamdden, y mae galw am amrywiaeth o ffyn: ffyn cerdded, mynydd, hela a physgota.

Torrwyd y ffyn yng nghanol y gaeaf (tua amser y Nadolig) oherwydd i'r sug fod ar ei isaf. Cadwyd hwy dan gysgod am flwyddyn i sychu yn raddol. Ceir coed sydd yn addas i wneud ffyn ym mhob rhan o Gymru. Y rhai mwyaf cyffredin yw collen, bedwen, ffawydden, celwyn, dreunen ddu, dreunen wen, rhosyn y cŵn, ac eithin. Un o'r ffyn mwyaf gwerthfawr i'r gwneuthurwyr yw unrhyw goeden sydd wedi ei thagu gan wyddfyd (honeysuckle) gan iddo adael hoel prydferth ar yr rhisgl. Defnydd arall a ddefnyddiwyd, yn enwedig i'r Bagal, oedd cyn myheryn a chyrn ceirw. Y mae y grefft yn ddiddorol dros ben ac heb fod yn ddrud. Mae hefyd yn gyfle ardderchog i ddatblygu medr newydd, ac yn esgus da i ymlacio yn yr awyr agored.

CYMDEITHAS GWNEUTHURWYR FFYN GOGLEDD CYMRU

Ffurfiwyd y Gymdeithas yn wreiddiol yng Ngholeg Llysfasi, ger Rhuthun, ar y 7fed o Ionawr 1992. Un o brif amcanion y Gymdeithas o'r dechrau oedd

ennyn diddordeb pobl yn y grefft, ac efallai adfer un o hen gelfi Cymru. Yn dilyn diddordeb a ddangoswyd yng Ngwynedd fe sefydlwyd cangen ychwanegol yno ar y 23 Mai 1994. Y mae gan y Gymdeithas 98 o aelodau; 61 yng Nghlwyd a 37 yng Ngwynedd, ac mae'r aelodaeth yn dal i gynyddu. Y tâl aelodaeth yw £5 y flwyddyn.

Ar 3 Ionwr 1995 penderfynwyd yn unfrydol i ffurfio dwy gangen annibynnol, hynny yw, cangen Gwynedd a changen Clwyd. Penderfynwyd hefyd fod i'r ddwy gangen weithredu o dan nawdd Cyngor newydd Gwneuthurwyr Ffyn Gogledd Cymru, ac i'r corff hwn gynnwys aelodau wedi eu hethol o'r ddwy gangen. Felly, ar yr 8fed o Ionawr 1995, fe ffurfiwyd yn swyddogol gangen Gwynedd o Gwneuthurwyr Ffyn Gogledd Cymru.

Dyna, yn fyr, yw hanes ein Cymdeithas. Efallai yn y dyfodol y gwelwn gymdeithasau eraill yn sefydlu yng Nghymru, pwy a wŷr?

Cynhelir ein cyfarfodydd yn

Ystafell Gymuned, Neuadd Goffa Y Felinheli, am 7 o'r gloch, ar y nos Lun cyntaf o bob mis. Mae croeso cynnes i bawb sydd â diddordeb yn y grefft. Ac fe gawn sgwrs a phaned mewn awyrgylch anffurfiol.

Gyda ffurfio'r gangen newydd fe obeithiwn sicrhau parhad yr hen grefft ddiddorol hon.

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r Gymdeithas yna cysylltwch unai â Lleufer O. Pritchard (01286) 650291 neu ag Alun Lewis Jones (01248) 671507.

ANTUR PADARN

Mewn cyfarfod o Antur Padarn a gynhaliwyd ar nos Iau, 16 Mawrth, yn Ysgol Gymuned Penisarwaun, pwysleisiwyd mor bwysig yw bod Cynghorwyr Sir a Dosbarth gwahanol bentrefi yr ardal yn anelu at geisio cyd-weithio llawer mwy â'u gilydd er mwyn denu y math o fuddsoddiad ariannol sylweddol sydd ei angen ar gyfer gwella a sicrhau cyfleusterau cymdeithasol newydd a chario allan rhaglen gwella'r amgylchfyd ar gyfer Dyffryn Padarn. Teimlwyd nad oedd digon o hyn wedi digwydd hyd yma a bod hynny yn anffodus o gofio y manteision lu a allai ddod yn sgîl cyd-weithio o'r fath. Gyda'r etholiadau lleol i'w cynnal ym mis Mai eleni, cytunwyd i bwysio ar bob ymgeisydd llwyddiannus i gydweithio llawer mwy â'u gilydd pan ddaw y Cynghorau Unedig newydd i rym ym mis Ebrill y flwyddyn nesaf.

Yn yr un cyfarfod cafwyd adroddiad llawn gan Phyllis Ellis o'r Gynhadledd 'Cymunedau Cymru ar y Blaen' a gynhaliwyd ym Mhlas Menai ar 3 Mawrth, ac fe adroddodd Glyn Tomos am y datblygiadau diweddaraf Cynllun Leader Gwynedd.

Cynhelir y cyfarfod nesaf o'r Antur ar **nos Iau, 27 Ebrill, am 7 o'r gloch yn Ysgol Gymuned Penisarwaun**. Ar gyfer y cyfarfod ym mis Medi bwriedir trefnu ymweliad â Menter Pentrefoelas er mwyn gweld llwyddiant y datblygiadau cymunedol yno. Bydd mwy o fanylion am hyn ar gael yn ddiweddarach.

YN DEBYG IAWN I TI A FI

Bydd Theatr Bara Caws yn perfformio drama newydd sbon gan Meic Povey, 'Yn Debyg Iawn i Ti a Fi' yn Neuadd Ysgol Brynrefail, nos Wener, Mai 5. Dechreuir am 7.30 o'r gloch. Mae tocynnau i'w cael trwy gysylltu â Mrs Olwen Llywelyn (01286) 650200.

Yr actorion yw Catherine Aran, Gwenno Elis Hodgkins, Maldwyn John, Merfyn Pierce Jones a'r cyfarwyddwr yw Meic Povey.

Yn dilyn cynhebrwng eu mam, daw Glyn, ei wraig Elin a'i chwaer Olwen, ynghyd i drafod dyfodol eu brawd ieuengaf Derec, sydd wedi ei farnu yn sgitsioffrenig ers blynnyddoedd. O dras cyffredin maent, ar yr wyneb, yn fodlon ac yn awyddus i gymeryd eu cyfrifoldebau o ddifrif. Ond, o dipyn i beth daw rhagrith ac anonestrwydd eu bywydau i'r amlwg. Pwy, mewn gwirionedd sydd yn wallgo a phwy sydd ddim? Pawb hwyrach ond bod rhai yn ei guddio yn well nag eraill.

Â'r ddrama bwerus hon at galon problem gyfoes drwy ofyn pwy sy'n bennaf gyrifol am ofal a lles y rhai sy'n dioddef o nam meddyliol.

(Parhad o'r dudalen gefn)

a'i driniaeth o'r bêl. Ni fu y Cymry fel pobl erioed yn fyddin gref — 'guerilla fighters' fuom ni erioed. Nid yw'n ddigon i ni gael clybiau yn tyfu fel madarch yng Nghymru heddiw os nad oes polisi pendant — ar wahân i roddi 'gêm' i'r unigolyn — gan y clwb hwnnw. Rhaid hyfforddi ac anelu i wella. Nid yw'r nifer sy'n chwarae'r gamp yn adlewyrchu cryfder y gamp.

Ni allaf lai na meddwl fod un edafedd yn cysylltu tair elfen yr ysgrif hon. Rhaid i ni ail-feddiannau elfen Gymreig i'n campau. Yr ydym yn gweld pob dim trwy gymharu â Lloegr neu Brydain neu Ewrop. Y mae dwy ddyletswydd gennym — i'n camp unigol ac i Gymru.

Gair i'r Plant . . .

SARN HELEN

Mae dau o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa — Mr a Mrs Seiriol Owen — yn bwriadu cerdded yr hen ffordd Rufeinig o'r gogledd i'r de, er mwyn codi arian at achos da.

SARN HELEN yw enw'r ar y ffordd hon.

Mae'n cychyn o Gaerhun ac yn arwain at Gaer Lligwy, yna ymlaen i Domen y Mur, Llanelltyd, Tal-y-llyn, Machynlleth, Cae Gaer, Trawscoed, Llanddewi Brefi, Llanllwni ac i Gaerfyrddin. Edrychwch ar y map.

Pwy oedd Helen?

Elen Luyddog oedd ei henw iawn. Roedd hi'n ferch i Eudaf, pennaeth Brythonig a reolai Segontium yn y bedwaredd ganrif. Cynan a Gadeon oedd ei brodyr.

Yn ôl y chwedl syrthiodd Macsen Wledig (Magnus Maximus) mewn cariad â'r ferch hardd hon. Ef oedd llywodraethwr Rhufeinig Prydain.

Ar ôl iddynt briodi gadawsant Cymru yn y flwyddyn 383 er mwyn mynd i Rufain. Roedd Macsen yn awyddus i goncro Rhufain a gwneud ei hun yn Ymerawdwr.

CYSTADLEUAETH I'R PLANT

Rydych chi'n gwybod mai Segontium oedd yr hen enw Rhufeinig ar Gaernarfon, ond BETH OEDD YR ENW RHUFEINIG AM GAERFYRDDIN?

Anfonwch eich ateb at y Golygydd cyn 18 Ebrill.

Bydd yr ateb cywir cyntaf a dynnir o'r het yn ennill

TOCYN LLYFR/CASÉT £5.

Cefnogwch Fusnesau Lleol


CEIR CYMRU BETHEL (0248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-drudion a'r Gaerwen, Môn)

A ydych yn ystyried newid eich car o fewn y flwyddyn nesaf? Ystyriwch y ffeithiau hyn:

1. Mae tri-chwarter y ceir newydd a gaiff eu gwerthu ym Mhrydain yn colli rhwng 25% a 30% o'u gwerth erbyn eu bod yn naw mis oed.
2. Mae cwmnïau mawr a chwmnïau lesio a llogi yn derbyn oddeutu 25% o ddisgownt wrth brynu eu ceir ac felly mae'r cerbydau hyn yn dod ar y farchnad am brisiau isel ac fel arfer mewn cyflwr rhagorol wedi cael eu cynnal a'u cadw heb ystyried costau.
3. Mae gennym brofiad o 40 mlynedd yn prynu a gwerthu ceir ail-law ac rydym, ar gyfartaledd, yn trafaelio mil o filltiroedd bob wythnos yn chwilio am y bargeinion gorau er mwyn eu cynnig i bobl Gwynedd ar elw sydd fel arfer o gwmpas 5% o'r pris.

CROESAIR EBRILL



AR DRAWS

- Prif sefydliadau cystadleuol y Cymry (11)
- Yr hyn a roed ar waith gan 21 buddugol yn yr 1 ar draws (5)
- Stŵr, yn malu'n yfflon ar ôl tynnu'r to (7)
- Pobl bwysicaf yr 1 ar draws, ond nid o anghenraid yn aelodau o'r Llys (7)
- Pedair llinell ar ddeg a werthfawrogir yn yr 1 ar draws (5)
- Llyfr wythblyg (6)
- Bod yn fuddugoliaethus, ond nid yn yr 1 ar draws (6)
- Malu'r candi a rhedeg i ffwrdd (5)
- Yr hyn sy'n dwyn cymeradwyaeth yn yr 1 ar draws (5,2)
- Rhai sy'n ceisio creu 18 i lawr er mwyn ennill medal yn yr 1 ar draws mawr (7)
- Chwalu'r salŵn er mwyn cael siâr (5)
- Yn digwydd yn eich pen heb i chi wybod dim amdano (11)

I LAWR

- Lliniaru (7)
- Y broses o fynd o dan y dŵr (7)
- Yn wahanol i'r 11, 'does i hon ond pedair, ac mae'n gaeth (5)
- Gall berthyn i'r Capel neu i'r Eglwys (6)
- Siwan od, ond un o atyniadau'r 1 ar draws i'r werin (7)
- Ruth, mae'n ddychrynlyd (3)
- Gair technegol cysylltiedig â chelfyddyd arbennig yn yr 1 ar draws (5)
- Yn wahanol i 4, 'does dim amheuaeth mai i'r Eglwys y perthyn hwn (7)
- Aelod o gymdeithas sy'n cyfarfod yn flynyddol yn ystod un arbennig o'r 1 ar draws (7)
- O ble y daw'r mwyafrif o'ch anrhegion (1,6)
- Rhan o Loegr sydd â chysylltiad agos â'n 1 ar draws mawr ni (6)
- Gweler y nodiadau (5)
- Yr hyn sy'n dangos fod arian wedi eu derbyn (5)
- Wyneb cyfarwydd yr 1 ar draws, a llais y bore (3)

CROESAIR MIS MAWRTH



Oherwydd camgymeriad yn y dyddiad dychwelyd a gyhoeddwyd yn rhifyn Mawrth o'r Eco, ac er cadw'r gystadleuaeth yn agored hyd at yr eiliad olaf bosibl, ni dderbyniwyd ond tri ar ddeg ateb cywir i groesair y mis diwethaf.

Dorothy Jones, Llanrug; Mary Davies, Waunfawr; Nansi Davies, Rhuthun; Mrs E. W. Pritchard, Garndolbenmaen; Ceinwen Williams, Bethel; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; M. P. Jones, Clynnog; Olwen Owen, Llanberis; Catherine Jones, Rhiw; Jean Hughes-Jones, Rhiw; Nansi Jones, Llanberis; David Elwyn Williams, Caernarfon; ac Elfed Evans, Llanllechid, oedd y rhai â'r

atebion cywir, a chefais gryn bleser yn darllen (a cheisio deall!) cliwiau cryptig nifer ohonynt i'r gair 'WEL'.

Cyfeirio at yr hyn a ddywedodd Wil rywdro wrth y wal wnaeth llawer ohonoch, eraill wedi sylwi fod y gair yn ymddangos yng nghanol 'gwely', 'gorwel', etc. Aeth rhai ar ôl yr anagramau amlwg fel 'elw' a 'lew', ond y rhai sydd wedi canu'r gloch y mis yma yw'r rhai a aeth ar drywydd y gair Saesneg 'Well', e.e., 'Dysgw'r Saesneg yn ei wneud yn well', gan Nansi Jones. 'Go lew? Na, go wahanol i glust y Sais', gan Dorothy Jones; ac enillydd y mis hwn, sef 'Gwir syndod i'r Cymro fod y Sais yn weddol iach'.

Ceinwen Williams, Cefn Gwyn, Bethel, a'i luniodd ac iddi hi yr aiff y £5 y mis yma.

Yr un yw'r sialens eto y mis yma, sef llunio cliw cryptig. Dylai'r gair sydd i ymddangos yn 18 i lawr fod yn weddol amlwg o'r cliw arall sy'n cyfeirio ato. Anfonwch eich atebion i Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, i gyrraedd erbyn Ebrill 24 os gwelwch yn dda.

Dyddiadur y Mis

MIS EBRILL

- Llun** CWM-Y-GLO a LLANRUG: Undeb y Mamau. DEINIOLEN: Undeb y Mamau.
- Mawrth** LLANBERIS: Cyfeillach Eglwys Jerusalem. LLANRUG: Merched y Wawr — Siop Cae Coch.
- Mercher** DINORWIG: Bingo Teulu yn y Ganolfan am 7.
- Iau** PENISARWAUN: 'Hwyl y Pasg' yn y Neuadd Gymuned am 6.30. BRYNREFAIL: Cymdeithas y Chwirydd am 7.
- Sul** CYMANFA ANNIBYNWYR y Cylch yn Ebeneser, Deiniolen, am 2 a 6.
- Llun** BRYNREFAIL: Sefydliad y Merched — 'Whilmentan' gan Derec Owen, Llanfairpwll.
- Mercher** CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist. LLANRUG: Pwyllgor Codi Arian y Ganolfan Gymdeithasol, yn y Sefydliad Coffa am 7.30.
- Iau** DEINIOLEN: Cyngor Eglwys — Gwasanaeth Nos Iau Cablyd yng Nghefnywaun am 7.
- Sul** DEINIOLEN: Cyfarfod Pregethu Cefnywaun am 10.30 a 5.
- Mercher** LLANRUG: Te Cymreig yn Festri Capel y Rhos, 2-4 o'r gloch, er budd Cronfa'r Ganolfan Gymdeithasol.
- Sul** BRYNREFAIL: Rihysal Cymnfa'r Presbyteriaid Dosbarth Padarn yn y Capel. am 6.45.
- Mercher** CWM-Y-GLO: Gyrfa Chwist.

DIOLCHIADAU

Dymuna Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chydweithwyr Ysbytai Eryri a Bryn Seiont am y blodau, cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar achlysur ei hymddeoliad. Diolch arbennig i'w chydweithwyr am eu cyfeillgarwch yn ystod y pymtheng mlynedd y bu'n gweithio yn Ysbyty Eryri. Diolch hefyd i staff Y Bedol, Bethel, am ddarparu'r bwyd a'r gyfer y parti a gynhaliwyd ar nos Iau, 9 Mawrth.

Dymuna Mrs C. J. Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug, ddiolch yn fawr i Mrs D. J. Jones, cymdogion a'i ffrindiau am y te pen-blwydd, yr anrhegion a'r cardiau hardd a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn naw-deg oed yn ddiweddar. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Joan Hughes, 1 Stryd

YSGOL GWAUN GYNFI

Thema dosbarth un yw 'tri mochyn bach'. Maent wedi mynd allan i hel gwellt a phren i wneud tai, hefyd maent wedi adeiladu tŷ allan o frics.

Mae Llinos o ddosbarth 3 wedi dod a gwellaif i'r Ysgol. Mae gweillaf yn cael ei defnyddio i gneifio defaid.

Mi wnaeth dosbarth Mrs Heel gyfri gwahanol gerbydau oedd yn mynd heibio'r Ysgol.

Mi ddaeth Cwmni'r Frân Wen i roi perfformiad o 'Codi Gwrychyn' at blant blwyddyn 5 a 6. Cynhyrchiad am effaith adeiladu ffordd osgoi ar ffermwyr ydoedd.

Daeth ffotograffydd o'r papur newydd 'Wales on Sunday' i dynnu lluniau'r plant yn gwneud crefft efo'r artist Heather Lowe. Bu'n rhaid i grŵp ohonom ysgrifennu am ein gwaith efo Heather ac yna ei anfon i Gaerdydd ar y peiriant ffacs. Rydym yn awyddys i weld y papur dydd Sul nesaf.

GOHEBWYR: SARA, KIRSTY A STEVEN

Tomos, Llanberis, ddiolch o galon i'w theulu a'i ffrindiau trwy fro'r Eco am yr holl anrhegion, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a dderbyniodd tra yn yr ysbytai ac ar ôl dod adref.

RHODDION

£13.50: Mr E. C. Rowlands, Childer Thornton, Wirral.

£10: Mrs A. Sidebotham, Whaley Bridge; Mrs Jean Hughes, 1 Stryd Tomos, Llanberis; Mrs C. J. Evans, 3 Hafan Elan, Llanrug.

£5.50: Mr P. M. Williams, Corby; Mrs G. McCarthy, Childwall.

£5: Mr a Mrs Owen Jones, Llangefni; Mrs J. Williams, Morfa Bychan; Eirwyn a Brenda Griffiths, Summer Hill, Llanberis; Mr a Mrs John Griffith Jones, Hafan Elan, Llanrug; Jennie Angharad Roberts, 2 Ffrwd Madog, Brynrefail; Mrs B. Griffiths, 5 Maes Gwylfa, Deiniolen; Mrs Sass Williams, 25 Rhydfadog, Deiniolen; Florrie Davies, Dinorwig; Alwyn a Delyth Williams, Cae'r Bythod Mawr, Penisarwaun.

£3.50: Mrs Enid Jones, Tal-y-sarn; Mr R. W. Roberts, Blaenau Ffestiniog; Mr J. E. Williams, Bishops Auckland; Miss Helen Evans-Munro, Corby; Mrs H. T. Owen, Caerdydd; Mrs L. Lee, Morfa Bychan; Miss M. Griffith, Caerhun; Mr Alun Williams, 13 Bro Waun, Waunfawr; Mrs Eirwen C. Williams, Porthcawl; Mrs M. E. Edwards, Stone; Mrs Helen M. Francis, Higher Kinnerton; Mrs Alvona Jones, Prestatyn; Di-enw.


£3: Teulu Cae Gwyddel, Brynrefail; Arwyn a Carys Williams, 21 Stryd Goodman, Llanberis; Teulu y diweddar Fred Watkin, Edwardsville, ger Treharris; Rhian a Rhys a Cian, Pen-y-groes; Elizabeth Evans, Blaen Parc, Bethel.

£2: Mrs Bet Jones, Lyndale, Llanrug; Mrs Nancy Thomas, 3 Y Bwthyn, Deiniolen.

£1: Mrs A. Wilson Evans, Blaenau Ffestiniog; Leslie Roberts, Mildenhall, Suffolk (gynt o Green Terrace, Deiniolen).

★ Tacsî

★ Maes Awyr



Yfwch chi Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970
neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

CHWARAEON

CYRRAEDD Y STADIWM CENEDLAETHOL

Bydd dydd Sul, Mai 21, yn ddiwrnod hanesyddol i chwaraeon yr ardal oherwydd bydd y ferch gyntaf o'r ardal yn chwarae yn y Stadiwm Genedlaethol yn Nghaerdydd. Manon Williams o Lanberis yw hi, a bydd yn cynrychioli tîm pêl-droed merched dinas Bangor yn rownd derfynol Cwpan Cymru. Fe chwaraeir y gêm o flaen rownd derfynol Cwpan Allbright.

Roedd yn rhaid i Fangor deithio i'r de am y rownd gyn-derfynol. Llwyddwyd i guro tîm y Barri ar Barc Jenner o 5 gôl i 2. Yng nghanol y cae roedd Manon yn chwarae, a chafwyd perfformiad graenus gan y Clwb.

Yng nghynghrair Gogledd-Orllewin Lloegr y mae'r Clwb yn chwarae, sy'n gofyn am dipyn o deithio — cyn belled â Morecambe. Mae rhyw 20 o enethod yn y garfan.

Mae cyfle gan Manon a'i chyd-chwaraewyr i ennill ambell i dlws arall eleni. Mae dwy gêm gyn-derfynol yn eu hwynebu — yng nghwmpas y gynghrair, a hefyd yng nghwpan y rhanbarth (divisional cup). Ar hyn o bryd mae'r tîm yn bedwerydd yn y gynghrair ond mae ganddynt bedair gêm mewn llawn oherwydd gohirio cymaint o gêmiau oherwydd y meysydd gwlyb. Mae tîm Bangor yn chwarae gêm ymosodol iawn ac maent yn rhwydo yn rheolaidd. Taranodd y tîm 21 gôl yn erbyn Manto (Manceinion). Sgoriodd Manon bedair gwaith yn y gêm honno.

Dyma drydydd tymor Manon yn y tîm ac mae'n edmygydd mawr o ymdrechion Keith y rheolwr.

Yn ddiwedd glo i'r tymor bydd y tîm yn mynd ar daith i Weriniaeth Czech. Byddant yno am wyth

niwrnod gan chwarae pedair gêm.

Pob lwc i Manon ar ei 'Diwrnod Mawr' yn y Stadiwm Cenedlaethol.



PERFFORMIAD DA

Yn ddiweddar bu tîm hoci hŷn Ysgol Brynrefail yn cynrychioli Gwynedd mewn cystadleuaeth genedlaethol i siroedd Cymru. Yng Nghlwyd y cynhaliwyd y twrnameint a chanmolwyd safon y chwarae. Yn naturiol roedd tipyn o her yn wynebu'r genethod. Fel ysgol 'fach' mae'n amhosib i Brynrefail gynnal tîm hoci dan 18 oed i gynnwys genethod o'r chweched dosbarth yn unig.

Roedd tîm Brynrefail yn cynnwys disgyblion o flwyddyn 9 drwedd i'r chweched dosbarth. Roedd nifer o dîmau o'r siroedd eraill yn dod o Golegau Trydyddol. Yn naturiol, mae gan y colegau hyn dipyn o fantais gan eu bod yn derbyn disgyblion o nifer o ysgolion — mae ganddynt

CAP AR Y GORWEL

Daeth newyddion gwych i Eifion Jones o Lanrug yn ddiweddar. Clywodd ei fod wedi ei ddewis i garfan pêl-droed o dan 15 oed Ysgolion Cymru. Bydd y tîm yn chwarae dwy gêm, yn Ffrainc a'r Almaen. Yr hyn sy'n galonogol yw fod gan Eifion dymor llawn arall yn yr oedran yma. Y mae'n dal i ddenu sylw y clybiau proffesiynol. Llonyfarchiadau calonog Eifion.

Cwrs Golff Tyddyn Mawr



Bellach, gyda'r tywydd yn fwy ffafriol mae'r gwaith ar y fynedfa newydd wedi cychwyn. Bydd agor y cwrs yn swyddogol wedyn yn dibynnu ar Gyngor Arfon mewn ymgynghoriad ag Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd.

Erbyn i'r Eco ddod o'r wasg bydd y Pwyllgor Llywio wedi cytuno'n derfynol ar gynnwys y pecyn gwybodaeth fydd yn cael ei anfon i'r 150 sydd eisoes wedi dynodi eu diddordeb yn y datblygiad.

Yn y bôn cyfleusterau i'r rhai sydd am gychwyn chwarae golff fydd ar gael yn Nhuddyn Mawr. Dywed Meirion Hughes y bydd ef yn fodlon rhoi arweiniad i unrhyw un, ac fe fydd yna bagiau a chlybiau i'w hurio. I'r sawl sydd yn dangos gallu cynhenid, a gyda'r amynedd i ymarfer yn rheolaidd, mae Meirion yn bendant o'r farn y byddai ambell wers gan arbenigwr, a fyddai yn aelod o Gymdeithas Golffwyr Proffesiynol (PGA) yn talu yn y pendraw. Anodd tynnu cast . . . ! O daro'r bêl yn gywir meddyliwch o ddifri am eich sgôr heb sôn am arben colli peli!

Gêm i'r unigolyn i'w mwynhau yw golff ac ar adegau mawr fydd eich gwobr . . . dro arall mae'n ddamniol! I gael y gorau o'r gêm rhaid wrth hunan-ddisgyblaeth ar y cwrs gan roi y sylw angenrheidiol i Reolau Golff Cenedlaethol ac hefyd rheolau lleol. O dro i dro bydd rheolau lleol yn cael eu hadolygu a bydd manylion ar gael yn y dderbynfa.

Dywed Meirion bod canllawiau ar sut i ymddwyn ar unrhyw gwrs golff wedi eu seilio ar yr egwyddor ein bod yn gadael y cwrs fel y dymunen ni ei weld a'n bod ar bob achlysur yn ymddwyn yn gyfrifol tuag at eraill.

Byddwch barod 'Hogia'r Werin'! Os am sgwrs am y 'talw am balu' yna ffoniwch (01286) 674919.

RHAGHYSBYSIAD: TLWS YR ECO 1995

Gwneir ymgais bendant eleni i ddyddio y tlws pêl-droed lleol i gydymffurfio ag amserlen blwyddyn ysgol. Yn dilyn cyfarfod â'r prifathrawon cytunwyd i gynnal y gystadleuaeth eleni ar NOS WENER, 19 MAI, i ddechrau am 6 p.m.

Cynhelir dwy gystadleuaeth fydd yn cydreddeg, y naill i flynyddoedd 3 a 4, a'r llall i flynyddoedd 5 a 6. Unwaith eto cynhelir y gêmiau ar faes Ysgol Gynradd Llanrug.

Gwneir cais gan yr ysgolion i hyfforddwyr timau'r pentrefi wneud y trefniadau ar gyfer dewis y timau.

Os yw eich pentref am gystadlu rhwch wybod i mi drwy ffonio:

(01248) 670115

Os bu angen cyd-dynnu . . . dyma'r amser

Rhyw awyrgylch trist sy'n bodoli ym myd y campau yng Nghymru ar hyn o bryd. Yr hyn sy'n gwneud y sefyllfa yn fwy trist yw fod nifer o'r problemau o'n gwneuthuriad ein hunain.

Yn yr Uchel Lys yn Llundain mae'r achos rhwng y tri tîm 'alltud' a'r Gymdeithas Bêl-droed yn rhyngu ymlaen. 'Wn i ddim beth fydd y dyfarniad ond bydd y ddwy ochr wedi gwastraffu adnoddau ariannol prin iawn. Mae'r achos wedi cyflwyno chwerwedd i fydd y bêl gron ac anodd iawn fydd iacháu'r clwyfau, pa ochr bynnag fydd yn ennill. Y mae'r achos yn ymwneud â llawer mwy o glybiau na'r tri. Gall effeithio ar le clybiau'r Konica yng nghystadlaethau Ewrop. Dyma'r abwyd yn sicr a oedd yn elfen bwysig yn nhyfiant y Gynghrair Genedlaethol.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod angen sicrhau fod gwreiddiau'r gêm yn gadarn. Rhaid gwneud yn siŵr fod y deunydd crai yn dal i wella.

Rwyf i yn cytuno â'r gêmiau saith-

felly lawer mwy o ddewis. Ni chyrhaeddodd y tîm y rownd gyn-derfynol wedi'r rowndiau cynghreiriol, ond cawsant gryn ganmoliaeth am eu hymroddiad a'u hagwedd iach. Tîm Gwent enillodd y tlws a dim ond un gôl a sgoriwyd yn eu herbryn drwy'r dydd. Ie, gan Brynrefail, wrth gwrs. Aelodau'r garfan oedd: Gwenan Elis, Rhian Green, Iona Williams, Sera Thomas, Manon Williams, Cerys Parry, Nicola Gibbins, Nia Jones, Llinos Williams, Serah Thomas, Catrin Jones, Claire Morris, Fiona Lambrecht, Susan Humphreys.



bob-ochr i'r ifanc, ac yn sicr bod safon cyd-chwarae — a phasio yn enwedig — yn gwella. Mae arwyddion fod mwy o bobl yn barod i roi o'u hamser i hyfforddi! Mae hyn yn hanfodol bwysig. Mae'n bwysig hefyd fod ein timau lleol yn gwneud yn siŵr fod sefyllfa yn bodoli ble mae'r ieuencid yma yn gallu cymryd eu lle yn rhwydd mewn timau oedolion. Cofiwch am apêl Aled Roberts yn noson gwobrwyo Arfon ei bod hi erbyn hyn yn amser i ni fuddsoddi mewn 'cyrff' nid adnoddau. Yn anffodus y gelyn mwyaf yw ei bod yn bwysicach i'r mwyafrif llethol o 'ddilynwyr' pêl-droed lleol beth mae Man-U neu

Lerpwl yn ei wneud yn hytrach na'r timau lleol. Gallwn dalu £40 am grys un o'r clybiau mawr ond yn anffodlon rhoi 20c i brynu tocyn raffi i gynnal tîm ieuencid.

Y mae ein sefyllfa rygbi wedi cyrraedd y gwaelod . . . ac eto pwy a ŵyr beth a ddigwydd yng Nghwpan y Byd? Nid oes gennym 'sêr' sy'n symbylu ein hieuencid mwyach. Yn fwy na hynny nid yw ein dull o chwarae yn apelio. Nid oes gwefr mwyach. Cytunaf â rhai o'r sylwebyddion ein bod wedi anghofio ein gêm gynhenid — y chwaraewr bychan, dygn, penderfynol ond gyda'r elfen dywyllodrus yn ei rediad (I'w barhau ar dudalen 18)